Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yn:

# Blaenau Gwent a Chaerffili

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Medi 2022

# Cynnwys

**Cynnwys** .......... **2**
**Rhagair** .......... **3**
**Sgoriau** .......... **5**
**Crynodeb gweithredol** .......... **6**
**Argymhellion** .......... **12**
**Cefndir** .......... **13**
**Ffeithiau am y Cyd-destun** .......... **15**
**1. Darpariaeth sefydliadol** .......... **17**
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth .......... 20
1.2. Staff .......... 22
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau .......... 25
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau .......... 30
Ailsefydlu .......... 32
Amrywiaeth .......... 33
**2. Datrysiadau yn y llys** .......... **34**
2.1. Asesiad .......... 36
2.2. Cynllunio .......... 37
2.3. Gweithredu a chyflawni .......... 38
2.4. Adolygu .......... 39
**3. Datrysiadau y tu allan i'r llys** .......... **41**
3.1. Asesiad .......... 43
3.2. Cynllunio .......... 44
3.3. Gweithredu a chyflawni .......... 45
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys .......... 47
**Atodiad 1: Methodoleg** .......... **49**
**Atodiad 2: Data arolygu** .......... **51**

**Cydnabyddiaeth**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Pauline Burke, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.

**Rôl Arolygiaeth Prawf EM**

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant.

**Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu.** Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw. **© Hawlfraint y Goron 2022**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

**Cyhoeddwyd gan:**
Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan
Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

ISBN: 978-1-914478-85-7

# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r gwasanaeth troseddau ieuenctid (YOS). Rydym wedi arolygu a sgorio Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn gyffredinol, dyfarnwyd bod Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili yn 'Dda'.

Canfu'r arolygiad wasanaeth effeithiol, gyda chryfderau'n amlwg ar draws y broses asesu ac adolygu ar gyfer gorchmynion llys. Roedd asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau mewn datrysiadau y tu allan i'r llys yn feysydd ymarfer rhagorol. Fodd bynnag, roedd angen gwella gorchmynion llys wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer ymataliad plant a rheoli eu risg o niwed i eraill. Mae trefniadau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar gyfer gwybodaeth a chyfleusterau yn cael eu hystyried yn 'Rhagorol', ac mae ei drefniadau llywodraethu ac arwain, staffio a phartneriaethau yn 'Dda'.

Mae bwrdd rheoli GTI yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr ar berfformiad a chyfranogiad. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo diwylliant dysgu ac mae ganddo fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a welsom i ddangos mai'r partneriaid a osododd y cyfeiriad a'r weledigaeth ar gyfer y GTI. Canfu'r arolygiad hefyd nad yw'r panel ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys (y Biwro) yn aml-asiantaeth ac ni chyflwynir iddo yn gyson yr holl wybodaeth asesu sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wasanaeth gydag adnoddau da sy'n canolbwyntio ar atal, dargyfeirio ac ymyrryd yn gynnar er mwyn cefnogi plant a theuluoedd. Roedd y staff a'r gwirfoddolwyr yn teimlo bod rheolwyr a'u cymheiriaid yn eu gwerthfawrogi, a gwelsom fod y gwasanaeth yn hyrwyddo diwylliant o ofalu am ei staff ac am y plant a'r teuluoedd y mae'n gweithio gyda hwy.

Mae'r gwasanaeth iechyd a ddarperir i'r GTI o safon uchel. Mae gan y gwasanaeth hefyd staff arbenigol i weithio gyda theuluoedd, plant sydd â phrofiad o ofal a phlant sydd mewn perygl o gyflawni cam-drin domestig. Yr oedd yn siomedig gweld, fodd bynnag, bod swydd swyddog prawf ar secondiad GTI yn wag. Yn ogystal, mae gweithwyr cyswllt â dioddefwyr GTI yn swyddogion yr heddlu, a rhaid sicrhau'r gwasanaeth nad yw'r dull hwn yn cyfyngu ar ymgysylltiad rhai dioddefwyr oherwydd eu rhagdybiaethau posibl am wasanaeth yr heddlu.

Mae swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn adeilad ardderchog sy'n cynnig amgylchedd diogel a thawel i'r staff a'r plant. Gwelsom fod plant o'r ddau awdurdod lleol yn cael eu trin yn gyfartal a bod staff yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau ar sail eu hanghenion ac nad oeddent yn cael eu cyfyngu gan adnoddau yn eu hardal.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud nifer o argymhellion a fydd, gobeithio, yn cefnogi Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili i adeiladu ar ei sylfeini cadarn a sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i blant.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

## Sgoriau

| **Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili**<br>**Dechreuodd y gwaith maes:** Mai 2022 | | **Sgôr** | **28/36** |
|---|---|---|---|
| **Sgôr gyffredinol** | | **Da** | ● |
| **1.** | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Da** | ● |
| 1.2 | Staff | **Da** | ● |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Da** | ● |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Rhagorol** | ☆ |
| **2.** | **Datrysiadau yn y llys** | | |
| 2.1 | Asesu | **Rhagorol** | ☆ |
| 2.2 | Cynllunio | **Da** | ● |
| 2.3 | Gweithredu a chyflawni | **Angen gwella** | ● |
| 2.4 | Adolygu | **Rhagorol** | ☆ |
| **3.** | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesu | **Rhagorol** | ☆ |
| 3.2 | Cynllunio | **Rhagorol** | ☆ |
| 3.3 | Gweithredu a chyflawni | **Rhagorol** | ☆ |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys | **Angen gwella** | ● |

# Crynodeb gweithredol

Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) Blaenau Gwent a Chaerffili yn cael ei ystyried yn 'Dda'. Mae'r sgôr hon wedi'i phennu drwy arolygu'r GTI mewn tri maes o'i waith, y cyfeirir atynt fel 'meysydd'. Rydym yn arolygu yn erbyn 12 o 'safonau' craidd, a rennir rhwng y parthau. Mae'r safonau'n seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, dysg a phrofiad. Eu nod yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.[1] Mae rheolau sgorio cyhoeddedig yn cynhyrchu'r sgôr GTI cyffredinol.[2] Mae'r canfyddiadau a'r sgoriau dilynol yn y parthau hynny wedi'u disgrifio isod.

### Darpariaeth sefydliadol

Mae trefniadau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar gyfer gwybodaeth a chyfleusterau yn cael eu hystyried yn 'Rhagorol'. Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth, staffio a phartneriaethau yn cael eu hystyried yn 'Dda'.

Mae bwrdd rheoli GTI yn cael ei gadeirio ar y cyd gan benaethiaid gwasanaethau plant Blaenau Gwent a Chaerffili ac mae gan y ddau brofiad blaenorol o weithio mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid. Bydd aelodau newydd o'r bwrdd yn cael cyflwyniad i'w rôl gan reolwr y gwasanaeth GTI ac yn cael pecyn cynefino. Fodd bynnag, nid yw'r bwrdd wedi cynnal unrhyw sesiynau datblygu ers cyn y pandemig ac roedd yn teimlo bod y weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer y gwasanaeth wedi'u pennu gan arweinwyr a rheolwyr y GTI, heb fawr o fewnbwn gan y partneriaid ar y bwrdd rheoli.

Bob chwarter, mae'r bwrdd yn derbyn adroddiad perfformiad cynhwysfawr, adroddiad canfyddiadau a chamau gweithredu'r pecyn cymorth ar gyfer aildroseddu, a'r adroddiad ar gyfranogiad. Ar ben hynny, mae wedi cael adroddiadau ac wedi llunio cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud ag anghymesuredd, trais ieuenctid difrifol ac ymateb y GTI i adroddiadau thematig Arolygiaeth Prawf EM.

Mae partneriaid yn cydnabod bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wasanaeth gydag adnoddau da sy'n canolbwyntio ar atal, dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar i gefnogi plant a theuluoedd. Canfu'r arolygiad dystiolaeth fod y bwrdd rheoli wedi herio'r gwasanaeth prawf ynghylch ei adnoddau ar gyfer y GTI a diffyg swyddog prawf yn ei swydd.

Mae'r GTI yn cynhyrchu adroddiad cyfranogi sy'n galluogi'r bwrdd i glywed barn plant a theuluoedd. Fodd bynnag, roedd yn siomedig nad oedd, o safbwynt y bwrdd rheoli, yn tynnu sylw at enghreifftiau o sut yr oedd yr adborth hwn wedi dylanwadu ar y modd yr oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithlu sefydlog a phrofiadol. Cefnogir y rheolwr gwasanaeth gan bedwar rheolwr tîm ac mae cyfoeth o brofiad ym maes cyfiawnder ieuenctid yn y tîm rheoli. Ceir tri thîm rheoli achosion ac nid oedd unrhyw

---

[1] Mae safonau Arolygiaeth Prawf EM ar gael yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/

[2] Mae pob un o'r 12 safon yn cael ei sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn: 0–6 = 'Annigonol', 7–18 = 'Angen gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Rhagorol'.

dystiolaeth o anghytgord rhyngddynt, gyda'r holl staff yn gweithio gyda'i gilydd er budd y gwasanaeth cyfan. Mae'r staff yn gyfforddus gyda'u llwyth gwaith, yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu cefnogi. Mae'r broses dyrannu achosion yn ystyried pa staff sydd wedi bod yn ymwneud â'r teulu o'r blaen, fel bod cysondeb rheolwr achos yn cael ei flaenoriaethu. Mae staff yn gwneud popeth o fewn eu gallu i annog y plentyn i ymgysylltu a chydymffurfio'n dda.

Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Cynigir yr un hyfforddiant i wirfoddolwyr ag aelodau cyflogedig o staff ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i hyfforddiant sydd ond yn gysylltiedig â'u rôl. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn annog datblygiad staff drwy gynnig cyfleoedd rheoli o fewn y gwasanaeth a chefnogi staff i gwblhau cymwysterau allanol. Dywedodd staff a gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan reolwyr a chan eu cymheiriaid, ac mae teimlad bod y GTI yn sefydliad gofalgar lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu gwaith.

Bydd panel rheoli risg GTI yn cael ei gynnull os bydd plentyn yn cael ei asesu fel risg uchel o ran diogelwch a lles a/neu risg o niwed i eraill. Mae gan y GTI hefyd banel adsefydlu ac ailintegreiddio sy'n is-grwp o fwrdd rheoli GTI. Mae'n gyfarfod aml-asiantaeth, dan gadeiryddiaeth rheolwr gwasanaeth GTI, sy'n ymrwymo cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol i ddatrys unrhyw broblemau a all fod gan y plentyn wrth iddo adael y ddalfa neu ddod i ddiwedd ei amser gyda'r gwasanaeth.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid swyddog parch ieuenctid, sy'n darparu ymyriadau unigol i blant sydd mewn perygl o gyflawni cam-drin domestig. Mae ganddo hefyd weithiwr cefnogi teuluoedd a gweithiwr allweddol dulliau adferol pwrpasol, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sydd â phrofiad o ofal i'w hatal rhag cael eu herlyn pan fo hynny'n briodol.

Mae'r gwasanaeth iechyd a ddarperir i'r GTI o safon uchel. Gall y gwasanaeth gael gafael ar seicolegydd ar gyfer trafodaethau achos ac mae ganddo nyrs arbenigol glinigol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed sydd ar secondiad. Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid therapydd lleferydd, iaith a chyfathrebu am ddau ddiwrnod yr wythnos a gweithiwr amser llawn ym maes camddefnyddio sylweddau.

Mae'r GTI yn monitro ei berfformiad o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant (ETE). Mae ganddo weithiwr llawn amser ym maes Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ac mae bwrdd rheoli GTI ar thema addysg yn cael ei gynnal yn flynyddol.

Siomedig oedd gweld bod swydd swyddog prawf hanner-amser y GTI yn wag. Mae'r sgiliau a'r profiad o reoli risg o niwed y mae swyddogion prawf yn eu cyfrannu at y gwasanaeth yn fwlch yn y ddarpariaeth.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddau weithiwr cyswllt dioddefwyr sy'n swyddogion heddlu Gwent, a phan fydd dioddefwyr yn cael eu hadnabod, nhw fydd yn gwneud y cyswllt cyntaf. Rhaid sicrhau'r gwasanaeth bod y dull hwn yn cynnig cyfle i bob dioddefwr gymryd rhan mewn ymyriad cyfiawnder adferol ac nad yw'n cyfyngu ar ymgysylltu oherwydd rhagdybiaethau posibl sydd ganddynt am wasanaeth yr heddlu.

Sylwodd y tîm arolygu fod y GTI yn hyrwyddo diwylliant o ofalu am ei staff ac am y plant a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda hwy. Mae swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar y ffin rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili, ac mae'n lleoliad rhagorol sy'n cynnig amgylchedd diogel a thawel i staff a phlant. Mae'n addas iawn i blant, gyda dyfyniadau cymhellol ar y waliau o amgylch yr adeilad.

Mae gan y GTI fynediad at gronfeydd data awdurdodau lleol, ac mae gan bartneriaid perthnasol eu mynediad eu hunain i system rheoli achosion GTI. Mae staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn defnyddio cyfrifiaduron desg, yn ogystal â ffonau clyfar a gliniaduron, i hwyluso'r broses o weithio'n hyblyg. Gallant hefyd ddefnyddio cyfrifiaduron tabled wrth weithio gyda phlant a theuluoedd.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo diwylliant dysgu ac mae ganddo fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith, sy'n cynnwys grŵp adolygu asesu dan arweiniad cymheiriaid. Mae uwch ymarferwyr a rheolwyr yn defnyddio 'cyfaill SA', sy'n gallu bod yn unrhyw aelod o staff, i'w helpu i archwilio achosion. Mae adroddiad perfformiad y GTI yn cynnwys diweddariad ar y gwaith sicrhau ansawdd sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth, ac mae hyn wedi arwain at gynnal archwiliadau thematig. Ar gais y GTI, bydd asiantaethau eraill yn cwblhau archwiliad 'dwfn' annibynnol o un o'r achosion a gyflwynir i'r panel ailintegreiddio ac ailsefydlu.

Cynhyrchir adroddiad cyfranogiad ac adroddir arno i'r bwrdd rheoli. Mae'n amlinellu'r adborth a gasglwyd gan blant drwy hunanasesiadau a system ar-lein o'r enw 'Viewpoint Hub'. Mae tystiolaeth i awgrymu bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, fel rhan o'i ddiwylliant dysgu, yn adolygu achosion pan fydd digwyddiadau difrifol yn digwydd. Mae hefyd yn adolygu canlyniadau arolygiadau ac arolygiadau thematig ardaloedd eraill, ac yn datblygu cynlluniau gweithredu i wella ei ymarfer ei hun.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi cael paneli adsefydlu ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa ers 2014. O ganlyniad i'r nifer isel o blant sy'n cael dedfryd o gystodaeth, mae cylch gwaith y paneli hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys yr holl blant sy'n agored i GTI a'r rhai sy'n cwblhau ymyriadau GTI lle mae anghenion heb eu diwallu. Mae'r panel adsefydlu ac ailintegreiddio yn is-grŵp o'r bwrdd rheoli, ac roedd yn amlwg bod partneriaid wedi ymrwymo i'r paneli hyn i gefnogi cydweithio effeithiol.

Mae plant o'r ddau awdurdod lleol yn cael eu trin yn gyfartal ac mae staff yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau sy'n seiliedig ar eu hanghenion, yn hytrach na chael eu cyfyngu gan argaeledd yn eu hardal. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau adroddiad blynyddol ar anghymesuredd ar blant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Ar hyn o bryd mae'r GTI yn ymgynghori ar ei bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth drafft, sy'n cynnwys arweiniad defnyddiol i nodweddion amrywiaeth pobl, sy'n rhoi gwybod i staff am gwestiynau priodol i'w gofyn.

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn parhau i ddilyn cyngor swyddogol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd asesiadau risg ar ymarfer a darparu gwasanaeth eu creu a'u rhannu â staff a gwirfoddolwyr. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cadw mewn cysylltiad â phlant a theuluoedd gan ddefnyddio gwahanol lwyfannau, gan gynnwys FaceTime, WhatsApp, Skype, ffôn, testun, negesydd, e-bost a phost. Darparwyd ymyriadau gan ddefnyddio dulliau creadigol, gan gynnwys clipiau YouTube, taflenni gwaith a anfonwyd drwy'r post ac adnoddau a e-bostiwyd at rieni neu ofalwyr. Os nad oedd gan blentyn unrhyw ffordd o gysylltu, prynodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ffôn symudol syml er mwyn iddynt allu cysylltu dros y ffôn. Fodd bynnag, petai sefyllfa o ran ymgysylltu, diogelu'r cyhoedd neu amddiffyn yn codi a oedd yn galw am gyswllt wyneb yn wyneb, sicrhaodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod y cyswllt hwn yn cael ei wneud. Ym mis Ionawr 2021, roedd modd i'r GTI ddechrau defnyddio ei weithdy ar gyfer cyfarfodydd unigol gyda phlant.

Dyma ein prif ganfyddiadau am gyflawni sefydliadol:

- Mae'r bwrdd rheoli'n cael ei gyd-gadeirio gan benaethiaid gwasanaethau plant o'r ddwy ardal.
- Cyflwynir cyfres gynhwysfawr o ddata ac adroddiadau monitro rheolaidd i'r bwrdd rheoli.
- Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid adnoddau da ac mae'n canolbwyntio ar atal, dargyfeirio ac ymyrryd yn gynnar i gefnogi plant a theuluoedd.
- Mae'r gwasanaeth yn cynhyrchu adroddiad cyfranogi sy'n galluogi'r bwrdd i glywed barn plant a theuluoedd.
- Ceir gweithlu sefydlog a phrofiadol, lle mae staff o wahanol dimau'n gweithio gyda'i gilydd er budd y gwasanaeth cyfan.
- Anogir staff i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a chynigir yr un hyfforddiant i wirfoddolwyr ag aelodau cyflogedig o staff.
- Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan reolwyr a chan eu cyfoedion, ac mae teimlad bod y GTI yn sefydliad gofalgar lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu gwaith.
- Mae'r gwasanaeth iechyd a ddarperir i'r GTI o safon uchel.
- Mae swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar y ffin rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili, ac mae'n lleoliad rhagorol sy'n cynnig amgylchedd diogel a thawel i staff a phlant.
- Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu ac mae ganddo fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith.
- Mae aelodau'r panel aml-asiantaeth adsefydlu ac ailintegreiddio yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion plant.
- Mae plant o'r ddau awdurdod yn cael eu trin yn gyfartal ac mae staff yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau sy'n seiliedig ar eu hanghenion ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan yr hyn sydd ar gael yn yr ardal leol.

Ond:

- Nid oedd fawr o dystiolaeth i ddangos bod partneriaid y bwrdd rheoli yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth y GTI.
- Nid yw'r bwrdd wedi cynnal unrhyw sesiynau datblygu ers cyn y pandemig.
- Nid oedd y bwrdd rheoli wedi tynnu sylw at unrhyw enghreifftiau o sut mae adborth plant yn dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau.
- Ni chafwyd darpariaeth brawf i'r GTI, ac felly mae'r sgiliau a'r profiad o reoli'r risg o niwed y mae swyddogion prawf yn eu cynnig i'r gwasanaeth ar goll.
- Gallai cael swyddogion heddlu fel gweithwyr cyswllt dioddefwyr gyfyngu ar ymgysylltiad dioddefwyr oherwydd eu rhagdybiaethau posibl am wasanaeth yr heddlu.

### Datrysiadau yn y llys

Gwnaethom edrych yn fanwl ar bum dedfryd gymunedol a reolir gan y GTI. Ni chafwyd unrhyw ddedfrydau o gystodaeth o fewn yr amserlen a gwmpesir gan yr arolygiad. Rydym hefyd wedi cynnal pedwar cyfweliad gyda'r rheolwyr achos

perthnasol. Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; gweithredu a chyflawni gwasanaethau; ac adolygu. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Dyma ein canfyddiadau allweddol ynghylch datrysiadau yn y llys:

- Roedd asesu ac adolygu yn gadarn ym meysydd ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd rheolwyr achos yn adeiladu ar gryfderau'r plentyn.
- Roedd y cynllunio'n gadarn o ran diogelwch a lles plentyn, a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd y staff yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i lywio eu barn eu hunain.
- Roedd y staff yn deall pwysigrwydd datblygu perthynas waith gyda'r plentyn a'i gymell i ymgysylltu.
- Roedd tystiolaeth dda o waith aml-asiantaeth i ddarparu gwasanaethau.
- Roedd y staff yn ystyried barn y plant a'u rhieni neu ofalwyr.

Ond:

- Nid oedd rheolwyr achos bob amser yn ystyried anghenion a dymuniadau'r dioddefwr fel rhan o'r broses asesu a chynllunio.
- Nid oedd llawer o dystiolaeth bod pryderon yn ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl yn cael sylw wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Nid oedd staff yn ystyried ymataliad y plentyn yn gyson wrth roi cynlluniau ar waith.
- Wrth ddarparu gwasanaethau, nid oedd staff yn canolbwyntio digon ar ymataliad y plentyn na'i risg o niwed i eraill.
- Cafwyd cynlluniau wrth gefn gwael i reoli diogelwch a lles plant, a'u risg o niwed i eraill.
- Nid oedd staff bob amser yn ystyried ffactorau amrywiaeth ehangach y plentyn wrth adolygu eu cynnydd.

### Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar 10 achos a oedd yn cael eu rheoli gan YOS a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybuddiad amodol ieuenctid, un rhybuddiad ieuenctid ac wyth datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweld y rheolwyr achos mewn naw achos.

Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; a gweithredu a chyflawni gwasanaethau. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Dyma ein canfyddiadau allweddol ynghylch datrysiadau y tu allan i'r llys:

- Mae asesiad AssetPlus yn cael ei gwblhau ar gyfer pob plentyn sy'n hysbys i'r GTI.
- Mae asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn feysydd ymarfer cryf ym mhob un o'r tri maes.
- Roedd rheolwyr achos yn dadansoddi anghenion amrywiaeth y plentyn yn briodol ac wedi ystyried eu haeddfedrwydd a'u cymhelliant i newid.
- Canolbwyntiodd y staff ar ddeall arddull dysgu'r plentyn a'i anghenion unigol wrth gynllunio ymyriadau.
- Ystyriwyd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr mewn achosion perthnasol a arolygwyd.
- Datblygodd rheolwyr achos berthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr.
- Roedd rheolwyr achos yn canolbwyntio ar sicrhau y byddai'r plentyn yn gallu cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd pan ddaeth eu hymyriad i ben.
- Roedd staff yn defnyddio cyfarfodydd aml-asiantaeth i sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y plentyn.

Ond:

- Nid yw'r Biwro[3] yn aml-asiantaeth, ac nid yw'n cael yr holl wybodaeth asesu sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd yn gyson.
- Nid oedd staff wedi nodi'r holl ffactorau risg posibl mewn rhai achosion.
- Nid oedd dosbarthiad risg i ddiogelwch a lles plentyn, a'i risg o niwed i eraill bob amser yn rhesymol pan ystyriwyd yr holl wybodaeth oedd ar gael.
- Roedd angen trefniadau wrth gefn wrth gynllunio i gefnogi diogelwch a lles y plentyn, ac i reoli ei risg o niwed i eraill.
- Nid oedd rheolwyr achos wedi ystyried amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl ym mhob achos perthnasol.

---

[3]Y Biwro yw'r panel penderfynu ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys.

# Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud pump o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid ym Mlaenau Gwent a Chaerffili. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddau ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai Cadeirydd Bwrdd Rheoli GTI Blaenau Gwent a Chaerffili:**

1. sicrhau bod aelodau'r bwrdd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o bennu cyfeiriad a gweledigaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
2. adolygu fformat a phwrpas y Biwro a sicrhau bod ganddo'r wybodaeth a'r mewnbwn perthnasol gan yr asiantaethau angenrheidiol, fel bod datrysiadau y tu allan i'r llys yn diwallu anghenion y plentyn.

**Dylai Bwrdd Rheoli GTI Blaenau Gwent a Chaerffili:**

3. herio'r Gwasanaeth Prawf i sicrhau ei fod yn darparu'r ddarpariaeth briodol i'r GTI.

**Dylai Rheolwr Gwasanaeth GTI Blaenau Gwent a Chaerffili:**

4. adolygu'r gwasanaeth a gynigir i ddioddefwyr a sicrhau bod pawb sydd am ymgysylltu yn cael eu galluogi i wneud hynny
5. gwella ansawdd gwasanaethau i hyrwyddo ymataliad plant a rheoli eu risg o niwed i eraill.

# Cefndir

Mae timau troseddau ieuenctid yn gweithio gyda phlant rhwng 10 a 18 oed sydd wedi cael eu dedfrydu gan lys, neu sydd wedi dod i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol ond heb gael eu cyhuddo – yn hytrach, cawsant eu trin y tu allan i'r llys. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'r agweddau hyn ar y gwasanaethau troseddau ieuenctid.

Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn bartneriaethau statudol, ac maent yn amlddisgyblaethol, er mwyn delio ag anghenion y plentyn cyfan. Rhaid iddynt gael staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r gwasanaethau iechyd lleol.[4] Mae'r rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol, ond gall hyn amrywio.

Mae gwaith y Timau Troseddau Ieuenctid yn cael ei lywodraethu a'i siapio gan amrywiaeth o ddeddfwriaethau a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid) neu sy'n berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft, y canllawiau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd). Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn darparu rhywfaint o gyllid i'r Timau Troseddau Ieuenctid. Mae hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylid gwneud pethau.

Fe wnaethom gynnal gwaith maes arolygu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili yn ystod yr wythnos yn dechrau 09 Mai 2022, gan edrych ar achosion a ddechreuodd rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022.

Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili (GTI) yn Wasanaeth Troseddau Ieuenctid awdurdod lleol deuol, sy'n gwasanaethu ardaloedd Blaenau Gwent a Chaerffili yng Ngwent, Cymru. Mae cyfanswm o bum awdurdod lleol yng Ngwent. Mae'r GTI yn rhan o wasanaethau plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol ehangach. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi 'cynnal' y GTI ers ei greu ar ran y ddau awdurdod lleol. Mae nifer y plant y mae'n ymgysylltu â hwy ar draws y ddwy ardal fel arfer oddeutu 70 y cant ar gyfer Caerffili a 30 y cant ar gyfer Blaenau Gwent.

Mae'r boblogaeth dan-17 ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn 37,670, sy'n cyfateb i 20.7 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol. Yn seiliedig ar y Cyfrifiad (2011), mae 1.68 y cant o blant rhwng 10 ac 17 oed yn yr ardal wedi nodi eu bod yn ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig. Ar gyfer y rhai sy'n gadael ysgol yng Nghaerffili ym Mlwyddyn 11, parhaodd 91 y cant eu haddysg amser llawn yn yr ysgol neu'r coleg, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 90.4 y cant.[5] Ar gyfer pobl ifanc Blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol, parhaodd 74.8 y cant eu haddysg amser llawn mewn ysgol, coleg neu addysg uwch, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 80 y cant.

Mae'r boblogaeth dan-17 ym Mlaenau Gwent yn 13,619, sy'n cyfateb i 19.5 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol. Yn seiliedig ar y Cyfrifiad (2011), mae 1.7 y cant o blant rhwng 10 ac 17 oed yn yr ardal wedi nodi eu bod o leiafrifoedd ethnig. Ar gyfer y rhai sy'n gadael ysgol ym Mlaenau Gwent ym Mlwyddyn 11, parhaodd 89.1 y cant eu

[4] Mae *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998* yn nodi'r trefniadau ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid lleol a gweithio mewn partneriaeth.

[5] Cyrchfannau Disgyblion 2020, Gyrfa Cymru.

haddysg amser llawn yn yr ysgol neu'r coleg, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 90.4 y cant.[6] Ar gyfer pobl ifanc Blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol, parhaodd 85.7 y cant eu haddysg amser llawn mewn ysgol, coleg neu addysg uwch, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 80 y cant.

Mae adroddiadau perfformiad yn dangos bod nifer y bobl sy'n ymuno â'r GTI am y tro cyntaf ar gyfer mis Ionawr i fis Rhagfyr 2020 yn 148 am bob 100,000 o'r boblogaeth, a oedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r gwasanaeth wedi gweld tuedd o wyth mlynedd o ostwng cyfradd y newydd-ddyfodiaid, sydd bellach ar ei lefel isaf erioed. Mae'r gyfradd aildroseddu ychydig yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru a Lloegr, ond heb unrhyw blant yn cael dedfryd o gystodaeth am dros ddwy flynedd, mae'r gyfradd gystodaeth yn is na chyfartaleddau cenedlaethol Cymru a Lloegr a Chymru.

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn parhau i ddilyn cyngor swyddogol gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd asesiadau risg ar ymarfer a darparu gwasanaeth eu creu a'u rhannu â staff a gwirfoddolwyr. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cadw mewn cysylltiad â phlant a theuluoedd gan ddefnyddio gwahanol lwyfannau, gan gynnwys FaceTime, WhatsApp, Skype, ffôn, testun, negesydd, e-bost a phost. Darparwyd ymyriadau gan ddefnyddio dulliau creadigol, gan gynnwys clipiau YouTube, taflenni gwaith a anfonwyd drwy'r post ac e-bostio adnoddau at rieni neu ofalwyr. Os nad oedd gan blentyn unrhyw ffordd o gysylltu, prynodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ffôn symudol syml, er mwyn iddo allu cysylltu dros y ffôn. Fodd bynnag, petai sefyllfa o ran ymgysylltu, diogelu'r cyhoedd neu amddiffyn yn codi a oedd yn galw am gyswllt wyneb yn wyneb, sicrhaodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod y cyswllt hwn yn cael ei wneud. Ym mis Ionawr 2021, roedd modd i'r GTI ddechrau defnyddio ei weithdy ar gyfer cyfarfodydd unigol gyda phlant.

[6]Cyrchfannau Disgyblion 2020, Gyrfa Cymru.

## Ffeithiau am y Cyd-destun

### Gwybodaeth am y boblogaeth[7]

| | |
|---|---|
| **148** | Cyfradd newydd-ddyfodiaid am bob 100,000 ym Mlaenau Gwent a Chaerffili[8] |
| **167** | Cyfradd y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf am bob 100,000 yng Nghymru a Lloegr |
| **35.4%** | Cyfradd aildroseddu ym Mlaenau Gwent a Chaerffili[9] |
| **34.2%** | Cyfradd aildroseddu yng Nghymru a Lloegr |
| **251,751** | Cyfanswm poblogaeth Blaenau Gwent a Chaerffili |
| **23,543** | Cyfanswm y boblogaeth o bobl ifanc (10-17 oed) ym Mlaenau Gwent a Chaerffili |

### Gwybodaeth am lwyth achosion[10]

| Oedran | 10-14 oed | 15-17 oed |
|---|---|---|
| GTI Blaenau Gwent a Chaerffili | **21%** | **79%** |
| Cyfartaledd cenedlaethol | 18% | 82% |

| Hil/ethnigrwydd[11] | Gwyn | Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig | Anhysbys |
|---|---|---|---|
| GTI Blaenau Gwent a Chaerffili | **98%** | **2%** | **0%** |
| Poblogaeth y bobl ifanc (10-17 oed) ym Mlaenau Gwent | 98% | 2% | 0% |
| Y boblogaeth ifanc (10–17 oed) yng Nghaerffili | 98% | 2% | 0% |

| Rhywedd | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| GTI Blaenau Gwent a Chaerffili | **87%** | **13%** |
| Cyfartaledd cenedlaethol | 86% | 14% |

[7] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Mehefin 2021). *Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, canol 2020.*
[8] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2022). *Newydd-ddyfodiaid, Ionawr - Rhagfyr 2020.*
[9] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (Ionawr 2022). *Ystadegau aildroseddu, Ebrill 2019 i Fawrth 2020.*
[10] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (Ionawr 2022). *Ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuenctid: 2020 to 2021.*
[11] Data a ddarparwyd gan y GTI.

**Data llwyth achosion ychwanegol**[12]

| | |
|---|---|
| **219** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol, gyda: |
| **21** | Datrysiadau yn y llys |
| **198** | Datrysiadau y tu allan i'r llys |

**O'r 21 datrysiad yn y llys:**

| | |
|---|---|
| **21** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol: dedfrydau cymunedol |
| **0** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol yn y ddalfa |
| **0** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol ar drwydded |

**O'r 198 datrysiad y tu allan i'r llys:**

| | |
|---|---|
| **15** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol: rhybuddiad ieuenctid |
| **20** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol: rhybuddiad amodol ieuenctid |
| **163** | Cyfanswm baich achosion cyfredol: datrysiad cymunedol neu ddatrysiad arall y tu allan i'r llys |

**Statws addysg ac amddiffyn plant y llwyth achosion:**

| | |
|---|---|
| **2%** | Canran y llwyth achosion presennol ar gyfer 'Plant sy'n Derbyn Gofal' sy'n byw yn ardal y GTI |
| **0%** | Canran y llwyth achosion presennol ar gyfer 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a leolwyd y tu allan i ardal y GTI |
| **5%** | Canran y llwyth achosion presennol gyda chynllun amddiffyn plant |
| **11%** | Canran y llwyth achosion presennol gyda chynllun plentyn mewn angen |
| **77%** | Canran y llwyth achosion presennol 16 oed ac iau sydd yn yr ysgol yn llawn amser |
| **11%** | Canran y plant 16 oed ac iau mewn uned cyfeirio disgyblion, addysg amgen neu'n mynychu'r ysgol yn rhan-amser |
| **30%** | Canran y llwyth achosion presennol 17 oed neu'n hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |

**Ar gyfer plant sy'n destun datrysiadau yn y llys (gan gynnwys achosion ailsefydlu):**

| Math o drosedd[13] | % |
|---|---|
| Trais yn erbyn y person | 40% |
| Difrod troseddol | 20% |
| Troseddau moduro ditiadwy | 20% |
| Troseddau diannod eraill | 20% |

[12] Data a ddarparwyd gan y GTI, sy'n adlewyrchu'r llwyth achosion adeg cyhoeddi'r arolygiad.
[13] Data o'r achosion a gafodd eu hasesu yn ystod yr arolygiad hwn.

# 1. Darpariaeth sefydliadol

Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili (GTI) yn Wasanaeth Troseddau Ieuenctid awdurdod lleol deuol, sy'n gwasanaethu ardaloedd Blaenau Gwent a Chaerffili yng Ngwent, Cymru. Mae'r GTI yn rhan o wasanaethau plant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sydd wedi 'cynnal' y GTI ers ei greu ar ran y ddau awdurdod lleol. Mae'r bwrdd rheoli'n cael ei gyd-gadeirio gan benaethiaid gwasanaethau plant Blaenau Gwent a Chaerffili ac mae gan y ddau brofiad blaenorol o weithio mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid. Bydd aelodau newydd o'r bwrdd yn cael cyflwyniad i'w rôl gan reolwr y gwasanaeth GTI ac yn cael pecyn cynefino. Fodd bynnag, nid yw'r bwrdd wedi cynnal unrhyw sesiynau datblygu ers cyn y pandemig ac nid oedd llawer o dystiolaeth bod partneriaid y bwrdd rheoli wedi pennu'r cyfeiriad a'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth.

Bob chwarter, mae'r bwrdd yn derbyn adroddiad perfformiad cynhwysfawr, adroddiad canfyddiadau a chamau gweithredu'r pecyn cymorth ar gyfer aildroseddu, a'r adroddiad ar gyfranogiad. Roedd yn siomedig nad oedd y bwrdd rheoli wedi tynnu sylw at enghreifftiau o sut y mae'r adborth hwn wedi dylanwadu ar y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal, mae'r bwrdd wedi derbyn adroddiadau sy'n ymwneud ag anghymesuredd, trais ieuenctid difrifol ac ymateb y GTI i adroddiadau thematig Arolygiaeth Prawf EM.

Mae partneriaid yn cydnabod bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wasanaeth gydag adnoddau da sy'n canolbwyntio ar atal, dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar i gefnogi plant a theuluoedd. Canfu'r arolygiad dystiolaeth fod y bwrdd rheoli wedi herio'r Gwasanaeth Prawf o ran darparu adnoddau ar gyfer y GTI a diffyg swyddog prawf yn ei swydd.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithlu sefydlog a phrofiadol. Cefnogir y rheolwr gwasanaeth gan bedwar rheolwr tîm ac mae cyfoeth o brofiad ym maes cyfiawnder ieuenctid yn y tîm rheoli. Ceir tri thîm rheoli achos, sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd y gwasanaeth cyfan. Mae'r staff yn gyfforddus gyda'u llwyth gwaith, yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu cefnogi. Mae'r broses dyrannu achosion yn ystyried pa staff sydd wedi bod yn ymwneud â'r teulu o'r blaen, fel bod cysondeb rheolwr achos yn cael ei flaenoriaethu. Mae staff yn gwneud popeth o fewn eu gallu i annog y plentyn i ymgysylltu a chydymffurfio'n dda.

Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ac mae gwirfoddolwyr yn cael cynnig yr un hyfforddiant ag aelodau cyflogedig o staff ac nid ydynt yn cael eu cyfyngu i hyfforddiant sydd ond yn gysylltiedig â'u rôl. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn annog datblygiad staff drwy gynnig cyfleoedd rheoli o fewn y gwasanaeth a chefnogi staff i gwblhau cymwysterau allanol. Dywedodd staff a gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan reolwyr a chan eu cyfoedion, ac mae teimlad bod y GTI yn sefydliad gofalgar lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu gwaith.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad at gyfres gynhwysfawr o ddata a chyflwynir adroddiadau monitro rheolaidd i'r bwrdd rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiad chwarterol ar gyfranogiad ac adroddiad ar aildroseddu, a darperir adroddiadau dadansoddi manwl pellach hefyd.

Bydd panel rheoli risg GTI yn cael ei gynnull os bydd plentyn yn cael ei asesu fel risg uchel neu uchel iawn o ran diogelwch a lles a/neu risg o niwed i eraill. Mae gan y GTI banel adsefydlu ac ailintegreiddio hefyd, sy'n is-grwp o'r bwrdd rheoli. Mae'n gyfarfod aml-asiantaeth dan gadeiryddiaeth rheolwr gwasanaeth GTI, sy'n ymrwymo cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol i ddatrys unrhyw broblemau a all fod gan y plentyn wrth iddo adael y ddalfa, derbyn ymyriadau neu pan ddaw ei amser i ben gyda'r GTI.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid swyddog parch ieuenctid, sy'n darparu ymyriadau unigol i blant sydd mewn perygl o gyflawni cam-drin domestig. Mae ganddo hefyd weithiwr cefnogi teuluoedd a gweithiwr allweddol dulliau adferol pwrpasol, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sydd â phrofiad o ofal i'w hatal rhag cael eu herlyn pan fo hynny'n briodol.

Mae'r gwasanaeth iechyd a ddarperir i'r GTI o safon uchel. Gall y GTI gael mynediad at seicolegydd ar gyfer trafodaethau achos ac mae ganddo nyrs arbenigol glinigol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) sydd wedi'i secondio. Mae ganddo therapydd lleferydd, iaith a chyfathrebu am ddau ddiwrnod yr wythnos a gweithiwr amser llawn ym maes camddefnyddio sylweddau.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn monitro'n agos ei berfformiad o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant. Mae ganddo weithiwr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth amser llawn a chynhelir bwrdd rheoli GTI ar thema addysg bob blwyddyn.

Siomedig oedd gweld bod swydd swyddog prawf hanner-amser y GTI yn wag adeg yr arolygiad. Felly, roedd y sgiliau a'r profiad o reoli'r risg o niwed a gynigir i'r gwasanaeth gan swyddogion prawf ar goll ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddau weithiwr cyswllt dioddefwyr sy'n swyddogion heddlu Gwent, a phan fydd dioddefwyr yn cael eu hadnabod, nhw fydd yn gwneud y cyswllt cyntaf. Rhaid sicrhau'r gwasanaeth bod y dull hwn yn cynnig cyfle i bob dioddefwr gymryd rhan mewn ymyriad cyfiawnder adferol ac nad yw'n cyfyngu ar ymgysylltiad rhai dioddefwyr oherwydd eu rhagdybiaethau posibl am wasanaeth yr heddlu.

Gwelodd y tîm arolygu fod y GTI yn hyrwyddo diwylliant o ofalu am ei staff ac am y plant a'r teuluoedd y mae'n gweithio gyda hwy. Mae swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar y ffin rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili, ac mae'n lleoliad rhagorol sy'n cynnig amgylchedd diogel a thawel i staff a phlant. Mae'n addas iawn i blant, gyda dyfyniadau cymhellol ar y waliau o amgylch yr adeilad.

Mae gan y GTI fynediad at gronfeydd data awdurdodau lleol, ac mae gan bartneriaid perthnasol eu mynediad eu hunain i system rheoli achosion GTI. Mae gan staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad at gyfrifiaduron desg, yn ogystal â ffonau clyfar a gliniaduron, i hwyluso'r broses o weithio'n hyblyg. Gallant hefyd ddefnyddio cyfrifiaduron tabled wrth weithio gyda phlant a theuluoedd.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo diwylliant dysgu ac mae ganddo fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith sy'n cynnwys grŵp adolygu asesiadau dan arweiniad cymheiriaid. Mae uwch ymarferwyr a rheolwyr yn defnyddio 'cyfaill SA', sy'n gallu bod yn unrhyw aelod o staff, i'w helpu i archwilio achosion. Mae adroddiad perfformiad y GTI yn cynnwys diweddariad ar y gwaith sicrhau ansawdd sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth, ac mae hyn wedi arwain at gynnal archwiliadau

thematig. Ar gais y GTI, bydd asiantaethau eraill yn cwblhau archwiliad 'dwfn' annibynnol o un o'r achosion a gyflwynir i'r panel ailintegreiddio ac ailsefydlu.

Mae'r GTI yn cynhyrchu adroddiad cyfranogi ac yn adrodd ar hyn i'r bwrdd rheoli. Mae'n amlinellu'r adborth a gasglwyd gan blant drwy hunanasesiadau a system ar-lein o'r enw 'Viewpoint Hub'. Fel rhan o'i ddiwylliant dysgu, mae'r GTI yn adolygu achosion pan fydd digwyddiadau difrifol yn digwydd. Mae hefyd yn adolygu canlyniadau arolygiadau ac arolygiadau thematig ardaloedd eraill, ac yn datblygu cynlluniau gweithredu i wella ei ymarfer ei hun.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi cael paneli adsefydlu ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa ers 2014. O ganlyniad i'r nifer isel o blant sy'n cael dedfryd o gystodaeth, mae cylch gwaith y paneli hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys yr holl blant sy'n agored i GTI a'r rhai sy'n cwblhau ymyriadau GTI lle mae anghenion heb eu diwallu. Mae'r panel adsefydlu ac ailintegreiddio yn is-grŵp o'r bwrdd rheoli, ac roedd yn amlwg bod partneriaid wedi ymrwymo i'r paneli hyn er mwyn cefnogi cydweithio effeithiol.

Mae plant o'r ddau awdurdod yn cael eu trin yn gyfartal ac mae staff yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau sy'n seiliedig ar eu hanghenion ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan yr hyn sydd ar gael yn eu hardal. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau adroddiad blynyddol ar anghymesuredd ar blant o leiafrifoedd ethnig. Ar hyn o bryd mae'r GTI yn ymgynghori ar ei bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth drafft. Mae hyn yn cynnwys canllaw defnyddiol i nodweddion amrywiaeth pobl, sy'n helpu staff i ofyn cwestiynau priodol i blant a theuluoedd.

**Cryfderau**

- Mae'r bwrdd rheoli'n cael ei gyd-gadeirio gan benaethiaid gwasanaethau plant o'r ddwy ardal.
- Cyflwynir cyfres gynhwysfawr o ddata ac adroddiadau monitro rheolaidd i'r bwrdd rheoli.
- Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wasanaeth gydag adnoddau da sy'n canolbwyntio ar atal, dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar i gefnogi plant a theuluoedd.
- Mae'r gwasanaeth yn cynhyrchu adroddiad cyfranogi sy'n galluogi'r bwrdd i glywed barn plant a theuluoedd.
- Ceir gweithlu sefydlog a phrofiadol, lle mae staff o wahanol dimau'n gweithio gyda'i gilydd er budd y gwasanaeth cyfan.
- Anogir staff i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a chynigir yr un hyfforddiant i wirfoddolwyr ag aelodau cyflogedig o staff.
- Mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan reolwyr a chan eu cyfoedion, ac mae teimlad bod y GTI yn sefydliad gofalgar lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu gwaith.
- Mae'r gwasanaeth iechyd a ddarperir i'r GTI o safon uchel.
- Mae swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar y ffin rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili, ac mae'n lleoliad rhagorol sy'n cynnig amgylchedd diogel a thawel i staff a phlant.

- Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu ac mae ganddo fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith.
- Mae aelodau'r panel aml-asiantaeth adsefydlu ac ailintegreiddio yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion plant.
- Mae plant o'r ddau awdurdod yn cael eu trin yn gyfartal ac mae staff yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau sy'n seiliedig ar eu hanghenion ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan yr adnoddau yn yr ardal leol.

**Meysydd i'w gwella**

- Nid oedd fawr o dystiolaeth bod partneriaid y bwrdd rheoli yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth ar gyfer y GTI.
- Nid yw'r bwrdd wedi cynnal unrhyw sesiynau datblygu ers cyn y pandemig.
- Nid oedd y bwrdd rheoli wedi tynnu sylw at enghreifftiau o sut mae adborth plant wedi dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau.
- Ni chafwyd darpariaeth brawf i'r GTI, ac felly mae'r sgiliau a'r profiad o reoli'r risg o niwed y mae swyddogion prawf yn eu cynnig i'r gwasanaeth ar goll.
- Gallai cael swyddogion heddlu fel gweithwyr cyswllt dioddefwyr gyfyngu ar ymgysylltiad rhai dioddefwyr oherwydd eu rhagdybiaethau posibl am wasanaeth yr heddlu.

Mae sefydliadau sy'n cael eu harwain yn dda ac sy'n cael eu rheoli'n dda yn fwy tebygol o gyflawni eu nodau. Rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

| **1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth** | |
|---|---|
| Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi ac yn hyrwyddo darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Da |

**[14]Data allweddol**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y gwariant yn y flwyddyn ariannol flaenorol | £1,749,355 |
| Cyfanswm y gyllideb ragamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol | £1,758,722 |

Wrth wneud penderfyniad am lywodraethu ac arweinyddiaeth, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes gweledigaeth a strategaeth leol effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

[14] Data a ddarparwyd gan y GTI.

Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Blaenau Gwent a Chaerffili yn Wasanaeth Troseddau Ieuenctid awdurdod lleol deuol, sy'n gwasanaethu ardaloedd Blaenau Gwent a Chaerffili yng Ngwent, Cymru. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac mae'n rhan o wasanaethau plant, sy'n rhan o'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol ehangach. Mae'r bwrdd rheoli lleol yn cael ei gyd-gadeirio gan bennaeth gwasanaethau plant Caerffili a phennaeth gwasanaethau plant Blaenau Gwent. Mae gan y ddau brofiad blaenorol o weithio mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid ac maent yn weithwyr cymdeithasol cofrestredig. Nhw hefyd yw'r rheolwyr llinell ar y cyd ar gyfer rheolwr gwasanaeth GTI.

Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol, yn ogystal â rhai partneriaid anstatudol, gan gynnwys cynrychiolwyr o faes tai a diogelwch cymunedol.

Cynrychiolir dwy ardal Blaenau Gwent a Chaerffili ar y bwrdd. Bydd aelodau newydd yn derbyn llawlyfr cynefino ac yn cyfarfod â rheolwr gwasanaeth GTI. Mae presenoldeb aelodau yn gyson ac mae lefel presenoldeb cynrychiolwyr ar y bwrdd yn briodol ac yn ei alluogi i wneud penderfyniadau.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gynllun cyfiawnder ieuenctid ar waith ar gyfer 2021 i 2023 a datganiad o weledigaeth y sefydliad, sydd wedi'i gynnwys yn ei ddogfennau polisi a gweithdrefn. Fodd bynnag, nid yw'r bwrdd rheoli wedi cael unrhyw sesiynau datblygu penodol ers 2020. Felly, mae'n anodd gweld sut mae wedi dylanwadu ar gyfeiriad y GTI dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae aelodau'r Bwrdd yn clywed barn plant a theuluoedd drwy'r adroddiad chwarterol ar gyfranogi, sy'n coladu'r holl adborth a gasglwyd. Roedd yn siomedig nad oedd y bwrdd rheoli wedi tynnu sylw at enghreifftiau o sut y mae'r adborth hwn wedi dylanwadu ar y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Daeth y tîm arolygu i'r casgliad nad yw aelodau'r bwrdd yn ddigon uchelgeisiol yn eu gweledigaeth i yrru'r GTI yn ei flaen er mwyn ei wneud yn wasanaeth rhagorol.

### A yw'r trefniadau partneriaeth yn cefnogi darparu gwasanaethau'n effeithiol?

Mae partneriaid yn cydnabod bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn wasanaeth gydag adnoddau da sy'n canolbwyntio ar atal, dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar i gefnogi plant a theuluoedd. Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid strategaeth atal ac ymyrryd cynnar ar waith ac mae'n darparu cynllun atal o'r enw 'Reach Engage and Change Happens' (REACH), sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru. Mae darpariaeth ddargyfeiriol datrysiadau y tu allan i'r llys y gwasanaeth yn cael ei hariannu'n rhannol gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent.

Adeg yr arolygiad, roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymgynghori ar ei bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer 2022-2025. Roedd hyn yn cynnwys canllaw ar gwestiynau defnyddiol i annog trafodaethau am amrywiaeth gyda phlant a theuluoedd.

Mae'r GTI yn cyflwyno adroddiad perfformiad ym mhob cyfarfod o'r bwrdd rheoli. Mae'n cynnwys gwybodaeth am broffil y plant y mae'r GTI yn gwybod amdanynt, dyrannu baich gwaith, canlyniadau archwiliadau sicrhau ansawdd, cyllid a diweddariadau ar gynlluniau gweithredu gwasanaethau. Mae'r bwrdd hefyd wedi cael adroddiadau eraill, gan gynnwys adroddiad archwiliad anghymesuredd ar gyfer 2020/2021, yr adroddiad ar drais ieuenctid difrifol ar gyfer 2020/2021 a'r adroddiad

ar ganfyddiadau a chamau gweithredu'r pecyn cymorth ar gyfer aildroseddu, sy'n cael ei gyflwyno bob chwarter.

Mae tystiolaeth bod y bwrdd rheoli yn herio partneriaid ynghylch yr adnoddau y maent yn eu darparu. Er enghraifft, heriodd y Gwasanaeth Prawf am fethu â chwrdd â'i ofyniad statudol i ddarparu swyddog prawf i'r GTI.

Mae materion sy'n effeithio ar droseddu ymysg pobl ifanc yn amlwg ar agendâu grwpiau strategol allweddol eraill ym Mlaenau Gwent a Chaerffili. Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau rhianta corfforaethol, grwpiau adolygu achosion a byrddau Teuluoedd yn Gyntaf yn y ddwy ardal, a Bwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent.

**A yw arweinyddiaeth y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi darparu gwasanaethau'n effeithiol?**

Mae rheolwyr tîm yn mynychu'r bwrdd rheoli'n rheolaidd ac mae aelodau eraill o staff yn mynychu i gyflwyno darnau penodol o waith. Mae perthynas ddwy ffordd rhwng y bwrdd a staff y GTI, ac mae cyfathrebu gan y bwrdd yn cael ei rannu mewn cyfarfodydd rheoli a chyfarfodydd tîm. Cyn y pandemig, roedd aelodau'r bwrdd yn mynd i sesiynau gyda'r tîm ac yn ymweld â swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn aml. Mae gan reolwyr tîm feysydd cyfrifoldeb arweiniol ac maent yn gweithio'n uniongyrchol gydag aelodau'r bwrdd yn y meysydd ymarfer hyn, yn ogystal â'u gweld mewn cyfarfodydd eraill ar draws y bartneriaeth.

Cwblhawyd arolwg staff yr arolygiad yn gyfan gwbl gan 20 o bobl; roedd 14 o 20 o bobl yn deall gweledigaeth a chenhadaeth y GTI yn 'dda iawn'; roedd chwech o 20 yn 'ymwybodol iawn' o weithgareddau'r bwrdd rheoli ac yn deall ei rôl; ac roedd 13 o 20 yn 'eithaf ymwybodol' o'r gweithgareddau hyn. Teimlai'r rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr arolwg eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion strategol.

| **1.2. Staff** | ● |
|---|---|
| Mae staff yn y timau troseddau ieuenctid wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Da |

**Data staffio allweddol**[15]

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn (FTE)) | 41 |
| Cyfanswm nifer y rheolwyr achos cymwysedig (cyfwerth ag amser llawn)[16] | 7.5 |
| Cyfradd y swyddi gwag (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y staff) | 9.3% |
| Cyfartaledd y rheolwyr llwyth achosion (cyfwerth ag amser llawn)[17] | 8 |

[15] Data a ddarparwyd gan y GTI ac sy'n adlewyrchu'r staffio adeg cyhoeddi'r arolygiad.

[16] Rheolwyr achos cymwysedig yw'r rheini sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid neu brawf perthnasol.

[17] Data a ddarparwyd gan y GTI, sy'n seiliedig ar staffio a llwyth gwaith adeg cyhoeddi'r arolygiad.

| | |
|---|---|
| Nifer y diwrnodau gwaith blynyddol ar gyfartaledd lle ceir absenoldeb oherwydd salwch (holl staff) | 7.6 |
| Cyfradd gadael staff (canran o'r holl staff a adawodd yn ystod cyfnod 12 mis) | 9.3% |

Wrth wneud penderfyniad am staffio, rydym yn ystyried yr atebion i'r pum cwestiwn canlynol:

**A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithlu sefydlog a phrofiadol sy'n cynnwys 41 o staff. Ymunodd rheolwr gwasanaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddechrau fel myfyriwr ac yna ysgwyddodd rôl gweithiwr cymdeithasol, ac yna fel uwch ymarferydd ac yna fel rheolwr tîm, cyn dod yn rheolwr gwasanaeth yn 2012. Ochr yn ochr â'r GTI, mae'r unigolyn hwn hefyd yn gyfrifol am y tîm Teuluoedd yn Gyntaf a'r tîm Cwynion a Gwybodaeth, a'r ddau yng Nghaerffili.

Mae'r rheolwr gwasanaeth yn cael ei gefnogi gan bedwar rheolwr tîm, sy'n gyfrifol am wybodaeth a pherfformiad, atal a dau dîm llys a chymuned, yn ogystal â thri uwch ymarferydd. Mae cyfoeth o brofiad ym maes cyfiawnder ieuenctid yn y tîm rheoli, ac mae rheolwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi'r timau. Cafwyd tystiolaeth yn yr achosion a arolygwyd bod staff yn gwneud popeth o fewn eu gallu i annog y plentyn i ymgysylltu a chydymffurfio'n dda, a bod y staff a'r rheolwyr fel ei gilydd yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda.

Mae rheolwyr tîm GTI yn gyfrifol am ddyrannu achosion a defnyddio taenlen baich achosion i reoli hyn. Maent yn ystyried nifer yr achosion a ddelir gan reolwyr achos, a'u sgiliau a'u gwybodaeth benodol. Wrth ddyrannu achosion, maent hefyd yn ystyried pa staff sydd wedi bod yn ymwneud â'r teulu o'r blaen, fel bod cysondeb y rheolwr achos yn cael ei flaenoriaethu. Adeg yr arolygiad, roedd gan y rheolwyr achos oddeutu wyth achos yr un. O'r 23 aelod o staff a gwblhaodd yr arolwg staff, dywedodd pob un ohonynt eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith neu lwyth achosion.

**A yw sgiliau staff y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid dri thîm rheoli achosion. Mae gweithwyr allweddol y tîm atal yn rheoli achosion sy'n rhan o REACH, datrysiadau y tu allan i'r llys, y Prosiect Gyda'n Gilydd, Cefnogi Newid Teuluol (yng Nghaerffili) ac ymyriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r ddau dîm llys a chymuned yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, sy'n rheoli gorchmynion statudol a datrysiadau y tu allan i'r llys. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o anghytgord rhwng y timau, ac mae'r holl staff yn gweithio gyda'i gilydd er budd y gwasanaeth cyfan.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gydlynydd gwirfoddolwyr, a gall gwirfoddolwyr wneud cais am nifer o swyddi yn y gwasanaeth, gan gynnwys fel aelod o banel gorchymyn atgyfeirio neu oedolyn priodol ar gyfer plant yn nalfa'r heddlu, mentora neu wneud iawn. Ar hyn o bryd mae 17 o wirfoddolwyr yn gweithio, a 18 arall ar wahanol gamau yn y broses recriwtio. Mae pob gwirfoddolwr yn derbyn hyfforddiant cynefino, sy'n cynnwys rhaglenni hyfforddi penodol, cwrdd â staff a phaneli cysgodi. Cynigir yr un hyfforddiant i wirfoddolwyr ag aelodau cyflogedig o staff. Nid ydynt wedi'u cyfyngu i hyfforddiant sydd ond yn gysylltiedig â'u rôl ond

cânt eu hannog i wneud cais am hyfforddiant sy'n seiliedig ar eu datblygiad proffesiynol a phersonol eu hunain. Maent yn cael eu cynnwys yn holl negeseuon e-bost hyfforddiant awdurdodau lleol ac yn ddiweddar maent wedi cwblhau cwrs ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gwirfoddolwyr yn derbyn goruchwyliaeth unigol bob chwe mis, a chynllun arfarnu a datblygu blynyddol. Fe'u gwahoddir i gyfarfodydd tîm a diwrnodau datblygu staff. Rhoddasant enghreifftiau o adegau pan oedd tîm rheoli'r GTI wedi gwrando arnynt a dywedasant eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hintegreiddio'n llawn yn y gwasanaeth.

Yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19, roedd yn rhaid i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid newid y ffordd roedd y paneli gorchmynion atgyfeirio'n cael eu rhedeg. Roedden nhw'n defnyddio galwadau cynadledda ar y ffôn er mwyn iddyn nhw allu parhau i weithredu, ond cyn gynted ag y cafodd y cyfyngiadau eu codi, fe wnaethon nhw ddychwelyd i baneli wyneb yn wyneb. Nod y GTI yw cael yr un aelodau panel ar y panel gorchymyn atgyfeirio cychwynnol a'r paneli adolygu, er mwyn iddynt ddatblygu perthynas gyda'r plentyn a'i deulu. Mae staff GTI yn treulio amser gyda gwirfoddolwyr cyn ac ar ôl y panel, i drafod unrhyw faterion sydd wedi codi.

### A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi darpariaeth a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel?

Mae staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd bob mis, sy'n cynnwys baich gwaith, llwyth gwaith, unrhyw heriau i iechyd emosiynol a meddyliol person, ansawdd y gwaith a meysydd i'w gwella a'u datblygiad proffesiynol. Mae arfarniadau blynyddol hefyd yn cael eu cwblhau ac maent yn cynnwys cynllun datblygu personol.

Mae staff sy'n cael eu secondio yn derbyn goruchwyliaeth gan eu hasiantaeth gartref, sy'n cwblhau arfarniad, a chan eu rheolwr llinell GTI. Darperir goruchwyliaeth glinigol pan fydd yn berthnasol i rôl person.

Mae proses gynefino gynhwysfawr ar waith ar gyfer staff newydd, ac mae gweithdrefnau yn bodoli ar gyfer mynd i'r afael â chymhwysedd staff. Dywedodd staff a gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr a'u cymheiriaid yn eu cefnogi. Ar gyfer yr achosion a arolygwyd, roedd y rheolwyr yn goruchwylio anghenion yr achos mewn pedwar o bob pump o achosion ar ôl y llys a phob datrysiad y tu allan i'r llys.

### A yw'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu yn gynhwysfawr ac yn ymatebol?

Mae strategaeth datblygu gweithlu staff a gwirfoddolwyr GTI ar waith ar gyfer 2020-2023. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cwblhau archwiliad sgiliau cyfiawnder ieuenctid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer ymarferwyr ac mae'n cadw cofnodion hyfforddi cynhwysfawr. Dywedodd staff a gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Mae holl staff a gwirfoddolwyr GTI yn gallu manteisio ar y cyrsiau sydd ar gael drwy wefan datblygu'r gweithlu mewnol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau, fel rheoli perfformiad, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Gall staff a gwirfoddolwyr hefyd fanteisio ar gyrsiau hyfforddi drwy Fwrdd Diogelu Gwent a'r Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r rhan fwyaf o staff wedi'u hyfforddi mewn Asesu, Ymyrryd a Symud Ymlaen 3 (AIM3) ar gyfer gweithio gyda phlant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, ac mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ddiweddar.

Mae'r GTI yn annog datblygiad staff drwy gynnig cyfleoedd rheoli o fewn y gwasanaeth a chefnogi staff i gwblhau cymwysterau allanol, gan gynnwys graddau gwaith cymdeithasol a'r Dystysgrif Broffesiynol mewn Ymarfer Effeithiol.

**A yw rheolwyr yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â staff?**

Mae arolygon staff yn cael eu dosbarthu'n rheolaidd ar draws y ddau awdurdod lleol, yn ogystal ag o fewn y GTI, ac anogir aelodau staff i'w cwblhau. Ymgynghorir â staff hefyd mewn cyfarfodydd tîm ynghylch unrhyw bolisi neu weithdrefn newydd sydd i'w gyflwyno.

Anogir staff i rannu newyddion cadarnhaol mewn cyfarfodydd tîm, a chydnabyddir arferion da. Mae staff a gwirfoddolwyr yn derbyn negeseuon e-bost canmol a gwerthfawrogi gan uwch arweinwyr a thrwy oruchwyliaeth gyda'u rheolwyr llinell. Dywedodd staff a gwirfoddolwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan reolwyr a chan eu cyfoedion, ac mae teimlad bod y GTI yn sefydliad gofalgar lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu gwaith. Yn yr arolwg staff, o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i bob cwestiwn, dywedodd 15 fod y GTI bob amser yn cydnabod gwaith eithriadol.

Caiff staff a gwirfoddolwyr GTI eu henwebu'n rheolaidd am wobrau. Roedd hyn yn cynnwys ennill Gwobr Hwb Doeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid am ymarfer arloesol ar gyfer un o'i brosiectau a'r gwirfoddolwyr gwasanaeth yn ennill gwobr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) am nifer o flynyddoedd olynol.

| **1.3. Partneriaethau a gwasanaethau** | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn. | Da |

**Nodweddion llwyth achosion**

| | |
|---|---|
| Canran y llwyth achosion presennol gyda phroblemau lles emosiynol neu iechyd meddwl | 17% |
| Canran y llwyth achosion presennol gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau | 39% |
| Canran o lwyth achosion cyfredol gyda datganiad o anghenion dysgu ychwanegol neu gynllun datblygu unigol | 5% |

Wrth wneud penderfyniad am bartneriaethau a gwasanaethau, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes dadansoddiad cyfredol a digon cynhwysfawr o broffil plant, a ddefnyddir gan y timau troseddau ieuenctid i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n dda?**

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad at gyfres gynhwysfawr o ddata. Darperir adroddiad rheoli perfformiad ar gyfer bwrdd rheoli'r GTI, sy'n cynnwys sylwadau ar ddangosyddion cenedlaethol a lleol a phroffilio a dadansoddi manwl iawn. Mae'r GTI yn adrodd ar y sgoriau risg o ran diogelwch a lles ar gyfer yr holl asesiadau a gwblhawyd, yn ogystal â'r mathau o ymyriadau, rhyw y plentyn a'r awdurdod lleol perthnasol. Ar gyfer achosion sy'n cael eu hystyried yn rhai risg uchel, mae amlinelliad byr o amgylchiadau'r plentyn wedi'i gynnwys. Ceir crynodeb hefyd o

dueddiadau diogelu, gan gynnwys nifer y ffurflenni atgyfeirio aml-asiantaeth a gyflwynwyd a nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r GTI hefyd yn monitro nifer y plant sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sydd ar gynllun amddiffyn plant.

Mae adroddiadau monitro rheolaidd a gyflwynir i'r bwrdd rheoli yn cynnwys adroddiad chwarterol ar gyfranogiad ac adroddiad ar aildroseddu. Darperir adroddiadau dadansoddi manwl pellach hefyd, ac yn ddiweddar mae'r rhain wedi cynnwys adroddiadau ar drais ieuenctid difrifol, anghymesuredd ac adroddiad data remand.

### A yw partneriaeth y timau troseddau ieuenctid yn darparu'r nifer, yr ystod a'r ansawdd o wasanaethau ac ymyriadau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion pob plentyn?

Bydd panel rheoli risg yn cael ei gynnull os bydd plentyn yn cael ei asesu fel un sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o ran diogelwch a lles a/neu risg o niwed i eraill. Cadeirir y cyfarfod gan reolwr tîm a bydd holl staff y GTI a'r asiantaethau partner allanol sy'n ymwneud â'r plentyn yn bresennol.

Mae gan y GTI banel adsefydlu ac ailintegreiddio, sy'n is-grwp o'r bwrdd rheoli. Fe'i sefydlwyd yn 2014 i fynd i'r afael â'r bylchau a'r rhwystrau rhag adsefydlu'n effeithiol ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa. Ers hynny, mae wedi ehangu ei gylch gwaith ac erbyn hyn mae'n cynnwys plant sy'n destun gorchmynion cymunedol y mae angen gwasanaethau ailintegreiddio arnynt. Mae'n gyfarfod aml-asiantaeth, dan gadeiryddiaeth y rheolwr gwasanaeth, sy'n ymrwymo cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol i ddatrys unrhyw broblemau sydd gan y plentyn o ran llety; Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth; gwasanaethau iechyd; camddefnyddio sylweddau; gwasanaethau teulu; cyllid a dyled; a phontio i wasanaethau oedolion.

Cymerodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ran yn rhaglen beilot Rheoli Achosion Uwch (ECM) y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r ECM yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau seicolegol a throseddeg, gan gyfuno damcaniaethau gwybyddol datblygiad plant, theori ymlyniad, theori ymatal a dealltwriaeth sy'n dod i'r amlwg o ddatblygiad niwrobiolegol. Mae'r model ECM bellach wedi'i wreiddio ar gyfer pob GTI ledled Cymru drwy'r timau iechyd meddwl FACT (triniaeth gymunedol bendant a hyblyg). Mae'r GTI hefyd yn gallu cael gafael ar yr adnoddau ar gyfer trafodaeth achos sy'n seiliedig ar seicoleg ochr yn ochr â'r CNS CAMHS amser llawn yn y GTI, sy'n bresennol ar gyfer pob trafodaeth achos.

Ceir panel ymddygiad gwrthgymdeithasol, dan gadeiryddiaeth y tîm diogelwch cymunedol, yn y ddwy ardal, a chynrychiolir y GTI ar y paneli hyn. Os canfyddir unrhyw fath o gamfanteisio ar blant, bydd gweithwyr proffesiynol yn cwblhau pecyn cymorth ar gyfer camfanteisio. Byddant wedyn yn rhoi ymateb aml-asiantaeth ar waith drwy brosesau a gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd strategaeth brys. Mae Ymddiriedolaeth St Giles yn gweithio gyda phlant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol, neu sydd mewn perygl o hynny, yn ogystal â'r rheini sy'n ymwneud â thrais ieuenctid difrifol. Wrth asesu plant sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, neu lle mae pryderon difrifol eu bod wedi gwneud hynny, mae'r GTI yn cydweithio â gwasanaethau plant yn y ddau awdurdod lleol, gan ddefnyddio model AIM3.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cynnwys y prosiect REACH, a ddatblygwyd i ddarparu
ymateb amlasiantaeth i blant rhwng wyth a 17 oed sydd mewn perygl o droseddu neu sydd wedi ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Mae'r prosiect yn sicrhau bod plant a

theuluoedd yn gallu cael gafael ar ymyriadau ataliol, fel darpariaeth camddefnyddio sylweddau, cymorth i deuluoedd, mynediad at wasanaethau lles ac iechyd meddwl emosiynol, cymorth lleferydd ac iaith, a mynediad at weithgareddau cymunedol. Mae plant a'u teuluoedd yn gweithio gyda REACH yn wirfoddol am dri i chwe mis a gall unrhyw asiantaeth gyfeirio plant at y prosiect.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid swyddog parch ieuenctid, sy'n darparu ymyriadau unigol i blant sydd mewn perygl o gyflawni cam-drin domestig. Mae'r Rhaglen Parch Ieuenctid yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 14 a 18 oed y nodwyd eu bod mewn perygl o droseddu neu aildroseddu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Rhoddir cefnogaeth ategol hefyd i'r rhieni neu'r gofalwyr er mwyn sicrhau bod y newid yn cael ei fonitro a'i fod yn gynaliadwy. Mae'r swyddog parch ieuenctid yn gweithio yng Nghaerffili; fodd bynnag, mae'r un gwasanaeth ar gael drwy drefniadau comisiynu Blaenau Gwent gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig Phoenix, sy'n rhoi blaenoriaeth i atgyfeiriadau gan y GTI.

Mae gan y gwasanaeth hefyd weithiwr cefnogi teuluoedd ar gyfer plant a theuluoedd Caerffili. Pan fydd plentyn yn dod yn gysylltiedig ag ymyriad GTI, gyda chaniatâd y rhieni neu'r gofalwyr, cyfeirir y plentyn at y gweithiwr cefnogi teuluoedd. Mae asesiad sgrinio yn cael ei gwblhau, a gall y teulu gael rhaglen 12 sesiwn wedi'i theilwra ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae'r un gwasanaeth ar gael ym Mlaenau Gwent drwy ei weithwyr rhianta Teuluoedd yn Gyntaf ac, unwaith eto, mae unrhyw atgyfeiriadau gan y GTI yn cael eu trin fel blaenoriaeth.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd weithiwr allweddol dulliau adferol pwrpasol, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sydd â phrofiad o ofal i'w hatal rhag cael eu herlyn pan fo'n briodol gwneud hynny. Maent hefyd yn darparu hyfforddiant dulliau adferol i staff unedau preswyl, gofalwyr maeth a darparwyr llety eraill.

Mae gan y gwasanaeth gyfeiriadur o ymyriadau ac mae'n greadigol o ran sut mae'n gweithio gyda phlant i fynd i'r afael â'u hanghenion. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen 'Ffordd i Ddysgu', sy'n gwrs ar gyfer y rheini sydd wedi bod yn ymwneud â throseddau moduro; 'Street Doctors', sy'n rhaglen ar gyfer y rheini sydd wedi bod yn ymwneud â throseddau gyda chyllyll, 'Cadw'n Ddiogel', rhaglen ar gyfer y rheini sydd wedi bod yn ymwneud â chreu tanau a/neu gynnau tanau bwriadol; cwrs pum wythnos ar gyfer y rheini sydd wedi cyflawni troseddau casineb; a 'Parchu ac Amddiffyn', sy'n rhaglen ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd yn hyrwyddo athroniaeth 'dysgu drwy chwarae', sy'n golygu defnyddio gemau rhyngweithiol i ennyn diddordeb plant wrth ddarparu ymyriadau.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddau weithiwr cyswllt dioddefwyr sy'n swyddogion heddlu Gwent, a phan fydd dioddefwyr yn cael eu hadnabod, nhw fydd yn gwneud y cyswllt cyntaf. Mae'r dioddefwr hefyd yn derbyn taflen a gynhyrchwyd gan y tri GTI yng Ngwent, sy'n tynnu sylw at y cyfleoedd cyfiawnder adferol sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys llythyr esboniadol neu ymddiheuriad, cyfryngu, cyfarfod wyneb yn wyneb neu wneud iawn. Cynhelir asesiad diogelwch dioddefwyr, sy'n archwilio anghenion unigol y dioddefwr, ac yn ei gyfeirio at asiantaethau eraill i gael cefnogaeth, os oes angen. Mae adroddiad cyswllt dioddefwyr hefyd yn cael ei gwblhau, sy'n amlinellu unrhyw anafiadau ac effaith y trosedd ar y dioddefwyr. Gyda chaniatâd y dioddefwr, caiff hyn wedyn ei rannu gyda'r gwahanol baneli a'r rheolwr achos, fel y gall ddylanwadu ar fanylion y sesiynau ymwybyddiaeth o ddioddefwyr gyda'r plentyn sydd wedi troseddu.

Mae'r holl staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi mewn dulliau adferol, ac mae'r hyfforddiant yn cael ei ailadrodd yn flynyddol ar gyfer staff newydd. Mae'r GTI yn defnyddio adnodd archwilio achosion dioddefwyr ac wedi cwblhau nifer o archwiliadau yn ystod 2020/2021. Mae adborth gan ddioddefwyr wedi'i gynnwys yn yr adroddiad chwarterol ar gyfranogiad. Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r GTI yn defnyddio'i ddau heddwas fel gweithwyr cyswllt dioddefwyr. Rhaid iddo sicrhau felly bod y dull hwn yn cynnig cyfle i bob dioddefwr gymryd rhan mewn ymyriad cyfiawnder adferol ac nad yw'n cyfyngu ar ymgysylltiad rhai dioddefwyr oherwydd eu rhagdybiaethau posibl am wasanaeth yr heddlu.

Roedd dewis ehangach o brosiectau gwneud iawn cyn Covid-19, ac mae'r GTI yn gobeithio y bydd yr holl raglenni'n cael eu hadfer yn y pen draw. Mae gan y GTI fynediad at 'Unit 6', lle gallant wneud prosiectau gwaith coed, celf a chrefft, a phrosiect beiciau, lle mae'n dysgu plant sut i drwsio beiciau. Yn ddiweddar hefyd, prynodd randir, lle bydd plant yn cael eu dysgu am dyfu cynnyrch a bwyta'n iach. Mae gwneud iawn hefyd yn cynnwys gwneud blychau adar a meinciau, sy'n cael eu dosbarthu yn y parciau cymunedol lleol. Mae pob plentyn yn cael sesiwn gynefino, er mwyn gallu cyfateb prosiectau i'w diddordebau a'u sgiliau.

Dywedodd adborth gan y llys fod y GTI yn cysylltu'n dda gyda holl ddefnyddwyr y llys, a bod y staff yn broffesiynol, yn bendant, yn wybodus ac yn gymwynasgar. Mae system ar waith lle mae gan y GTI gysylltiad uniongyrchol â chynghorydd cyfreithiol ieuenctid, a bydd cynrychiolydd GTI yn mynychu cyfarfod y panel ieuenctid, gan sicrhau cyfathrebu da a chysylltiadau gwaith da. Defnyddir cyfarfod y panel hefyd fel cyfle hyfforddi pan fo angen.

### A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?

Mae'r gwasanaeth iechyd a ddarperir i'r GTI o safon uchel. Gall y gwasanaeth gael gafael ar seicolegydd ar gyfer trafodaethau achos a chael CNS CAMHS ar secondiad amser llawn. Mae'r CNS yn cynnal clinigau ymgynghori bore Gwener, lle trafodir atgyfeiriadau ac achosion, ac maent yn cynghori staff ar strategaethau a dulliau o weithio gyda phlant unigol. Mae'r CNS yn darparu gwaith uniongyrchol gyda phlant ac yn sicrhau bod y cyfarfod cyntaf ochr yn ochr â'r rheolwr achos, fel y gellir goresgyn unrhyw rwystrau. Gellir cyfeirio plant hefyd at y panel lles 'SPACE' (Un Pwynt Mynediad ar gyfer Lles Emosiynol Plant) sy'n galluogi pob plentyn i gael ei asesu ar gyfer ymyrraeth gynnar a darpariaeth arbenigol sy'n ymwneud â'u hanghenion iechyd meddwl a lles emosiynol. Mae gan y GTI hefyd therapydd lleferydd, iaith a chyfathrebu am ddau ddiwrnod yr wythnos, sydd wedi darparu hyfforddiant i staff GTI i'w galluogi i sgrinio achosion yn effeithiol.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithiwr llawn amser ym maes camddefnyddio sylweddau, sydd hefyd yn gyfrifol am gyfeirio plant GTI at wasanaethau cyffuriau ac alcohol priodol yn y gymuned. Atgyfeirir pan fydd angen i blant dderbyn ymyriad mwy dwys neu fel strategaeth ymadael i ddarpariaeth gymunedol gyffredinol ar ddiwedd eu hymyriad GTI. Mae gweithiwr camddefnyddio sylweddau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn darparu asesiad a thriniaeth, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am y tueddiadau o ran defnyddio cyffuriau a sylweddau newydd.

Mae'r GTI yn monitro ei berfformiad o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i blant. Mae ganddo weithiwr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth amser llawn a chynhelir bwrdd rheoli GTI ar thema addysg bob blwyddyn. Trafodir plant sydd mewn perygl o

gael eu gwahardd o’r ysgol yn y panel adsefydlu ac ailintegreiddio. Yn y ddwy ardal, mae’r GTI yn anfon rhestr bob pythefnos at yr adran addysg o’r holl blant y mae’r gwasanaeth yn eu hadnabod, ac yna rhennir hon gydag ysgolion, fel y gellir dechrau gweithio mewn partneriaeth. Ar gyfer 2021/2022, roedd nifer cyfartalog yr oriau yr oedd plentyn oedran ysgol yn defnyddio darpariaeth addysg a hyfforddiant wedi cynyddu erbyn diwedd eu hymyriad GTI ar gyfer achosion ôl-llys.

Ar gyfer plant sy’n hŷn nag oedran ysgol, mae cydlynwyr cynnydd ac ymgysylltu’r awdurdod lleol yn y naill ardal a’r llall yn rhannu’r adnodd adnabod sy’n galluogi partneriaid i weld pwy sydd mewn perygl o beidio â bod, neu sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hyn hefyd yn dangos pa blant sy’n hysbys i’r GTI, er mwyn i weithwyr proffesiynol allu gweithio gyda’i gilydd. Yn 2021/2022, roedd nifer yr oriau yr oedd plentyn dros 16 oed yn cael darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfartaledd hefyd wedi cynyddu ychydig erbyn diwedd eu hymyriad GTI ar gyfer achosion y tu allan i’r llys.

Yn ogystal â’u rôl fel gweithwyr cyswllt â dioddefwyr, mae swyddogion heddlu GTI yn cynnal archwiliad dyddiol o gronfa ddata’r heddlu, i weld a oes unrhyw blant wedi bod yn nalfa'r heddlu, naill ai drwy arestio neu drwy fynychu’n wirfoddol. Maent hefyd yn olrhain ac yn monitro plant at ddibenion cuddwybodaeth, drwy nodi gwybodaeth o system yr heddlu a’i chyfateb i blant sy’n hysbys i’r GTI.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gytundeb lefel gwasanaeth gydag adrannau gwasanaethau plant Caerffili a Blaenau Gwent. Ceir dealltwriaeth glir, a rennir rhwng yr holl staff, o’r broses atgyfeirio ar gyfer ymyrraeth gwasanaethau cymdeithasol.

Siomedig oedd gweld bod swydd swyddog prawf hanner-amser y GTI yn wag. Felly, mae’r sgiliau a’r profiad o reoli’r risg o niwed a gynigir i’r gwasanaeth gan swyddogion prawf yn fwlch yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth yn gweithio’n agos gyda’r Gwasanaeth Prawf ar ei drosglwyddiadau rhwng pobl ifanc ac oedolion. Pan fydd plentyn yn agosáu at fod yn 18 oed, caiff ei achos ei atgyfeirio drwy’r broses rheoli troseddwyr integredig er mwyn trafod a yw’n addas i drosglwyddo i’r gwasanaethau oedolion. Os oes gan y plentyn anghenion parhaus a nodwyd, yna bydd y GTI yn parhau i fod yn gysylltiedig â’r achos am dri mis cyntaf unrhyw gyfnod pontio. Mae plant sy’n cael eu hystyried ar gyfer trosglwyddo hefyd yn cael eu trafod yn y panel adsefydlu ac ailintegreiddio GTI.

### Cynnwys plant a’u rheini neu ofalwyr

Mae’r GTI yn defnyddio gwahanol ddulliau i gael adborth gan blant, gan sicrhau ei fod yn cynnwys pob plentyn. Mae’r adborth yn cynnwys y gwahanol weithgareddau y mae plant wedi bod yn ymwneud â hwy – er enghraifft, eu profiad gyda'r Biwro, panel gorchymyn atgyfeirio, gwneud iawn, ymyriadau a’r gweithdy. Gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth o sut yr oedd adborth plant wedi newid prosesau ac ymarfer. Cynhyrchir adroddiad cyfranogiad ac adroddir arno i’r bwrdd rheoli. Mae’n amlinellu’r adborth a gasglwyd gan blant drwy
hunanasesiadau a'r ‘Viewpoint Hub’.

Fel rhan o'r broses arolygu, gwahoddir plant i gymryd rhan mewn arolwg testun, a chynigir cyfle i'r rhai y caiff eu hachosion eu harchwilio i siarad ag arolygydd, i roi eu hadborth.

Siaradodd yr arolygwyr â dau blentyn a derbyniwyd ymateb testun gan bedwar. Roeddent i gyd yn teimlo bod gan eu gweithwyr GTI y sgiliau priodol i wneud y gwaith a dywedasant eu bod wedi gallu cael gafael ar y gwasanaethau a'r gefnogaeth iawn i'w helpu i gadw allan o drwbl.

Dywedodd un plentyn, a roddodd sgôr 10 allan o 10 i GTI:

> *"Roedd fy rheolwr achos yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus wrth wneud y gwaith ac roedd hefyd yn dysgu llawer i mi".*

Pan ofynnwyd a oedd gan y gweithiwr GTI y sgiliau cywir, dywedodd un plentyn:

> *"Mae'n hawdd siarad â fy rheolwr achos ac mae hi'n fy neall".*

| **1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau** | ☆ |
|---|---|
| Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Rhagorol |

Wrth wneud penderfyniad am wybodaeth a chyfleusterau, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol:

**A yw'r polisïau a'r canllawiau sydd ar waith yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pob plentyn?**

Mae ystod lawn o bolisïau a chanllawiau ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol ac sy'n hygyrch i staff. Mae pobl yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau drwy negeseuon e-bost a chyfarfodydd tîm. Mae protocolau rhannu gwybodaeth ar waith ac yn cael eu deall ar draws y bartneriaeth. Mae proses uwchgyfeirio ar gyfer yr holl bartneriaid os oes angen iddynt herio asiantaeth arall, ac mae'r staff yn teimlo bod rheolwyr yn cefnogi'r broses o fynegi pryderon.

**A yw amgylchedd(au) cyflawni'r timau troseddau ieuenctid yn diwallu anghenion pob plentyn ac yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?**

Mae'r GTI yn hyrwyddo diwylliant o ofalu am ei staff ac am y plant a'r teuluoedd y mae'n gweithio gyda hwy. Roedd hyn yn amlwg yn y ffordd roedd pobl yn siarad am y plant maen nhw'n gweithio gyda nhw ac yn y ffordd maen nhw'n rhyngweithio â'i gilydd.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'i leoli yn ei swyddfa bresennol, sydd ar y ffin rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili, ers 2013. Mae'n llety rhagorol sy'n cynnig amgylchedd diogel a thawel i'r staff ac i'r plant. Mae'n addas iawn i blant, gyda dyfyniadau cymhellol ar y waliau o amgylch yr adeilad. Cynlluniwyd un ystafell ar gyfer merched, gan adlewyrchu eu hanghenion penodol, fel y nodir mewn arolygiad thematig gan Arolygiaeth Prawf EM. Gall staff hefyd fanteisio ar amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys canolfannau cymunedol ac ysgolion, a byddant yn ymweld â phlant gartref.

Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gallu cadw ei swyddfa ar agor i staff drwy gydol y pandemig ac roedd ganddo rota amlinellol ar gyfer staff swyddfa bob dydd. Ym mis Mehefin 2021, agorodd ei swyddfa eto ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb â phlant, gan ddefnyddio ystafelloedd a gweithgareddau sy'n destun asesiad risg, cwestiynau sgrinio Covid-19, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo cyfarpar diogelu personol.

### A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pob plentyn?

Mae gan y gwasanaeth fynediad at gronfeydd data awdurdodau lleol, ac mae gan bartneriaid perthnasol eu mynediad eu hunain i system rheoli achosion GTI. Mae gan dîm dyletswydd brys De Ddwyrain Cymru fynediad at gronfa ddata GTI i lywio ymyriadau y tu allan i oriau. Mae system rheoli achosion GTI yn galluogi'r gwasanaeth i gynhyrchu data ar berfformiad.

Roedd gan staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad at gyfrifiaduron desg ac roedd ganddynt ffonau clyfar a gliniaduron yn ystod cyfyngiadau Covid-19, pan roedd Llywodraeth Cymru eisiau i staff weithio gartref lle roedd hynny'n bosibl. Mae gan staff hefyd gyfrifiadur tabled i'w ddefnyddio wrth weithio gyda phlant a theuluoedd.

### A yw'r dadansoddi, y dystiolaeth a'r dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i sbarduno gwelliant?

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn hyrwyddo diwylliant dysgu ac mae ganddo fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith, sy'n cynnwys grŵp adolygu asesu dan arweiniad cymheiriaid. Mae rheolwyr yn adolygu holl asesiadau AssetPlus, ac mae proses ddidoli ar gyfer adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Biwro, paneli gorchmynion atgyfeirio a'r llys. Mae uwch ymarferwyr a rheolwyr yn defnyddio 'cyfaill SA', sy'n gallu bod yn unrhyw aelod o staff, i'w helpu i archwilio achosion. Mae'r dull hwn yn galluogi pob aelod o staff i gymryd rhan, a bod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd gwaith y gwasanaeth.

Mae adroddiad perfformiad y GTI, a gyflwynir bob chwarter i'r bwrdd rheoli, yn cynnwys diweddariad ar y gwaith sicrhau ansawdd sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth, ac mae hyn wedi arwain at gynnal archwiliadau thematig. Er enghraifft, rhoddodd y GTI y wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd rheoli am ganfyddiadau mewn perthynas â throseddau trais ieuenctid difrifol a oedd wedi cael eu cyflawni gan blant a oedd yn agored i GTI yn ystod 2020/2021. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd wedi cwblhau hunanasesiad cod dioddefwyr ym mis Mehefin 2021. Ar gais y GTI, bydd asiantaethau partner yn cwblhau archwiliadau 'dwfn' annibynnol o achosion a gyflwynir i'r panel ailintegreiddio ac ailsefydlu. Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar: a oedd yr atgyfeiriad i'r panel yn berthnasol ac yn amserol; a oedd yr anghenion a nodwyd a'r risg yn haeddu ymyriadau aml-asiantaeth; a chyfraniad asiantaethau partner at gefnogi'r plentyn.

Fel rhan o'i ddiwylliant dysgu, mae'r GTI yn adolygu achosion pan fydd digwyddiadau difrifol yn digwydd. Mae hefyd yn adolygu canlyniadau arolygiadau ac arolygiadau thematig ardaloedd eraill, ac yn datblygu cynlluniau gweithredu i wella ei ymarfer ei hun.

# Ailsefydlu

**Polisi a darpariaeth ailsefydlu**

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid bolisi adsefydlu, dyddiedig 2021, ac mae ganddo baneli adsefydlu ers 2014. O ganlyniad i'r nifer isel o blant sy'n cael dedfryd o gystodaeth, mae cylch gwaith y paneli hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys plant sy'n gadael ymyriadau GTI lle mae anghenion heb eu diwallu, yn ogystal â phlant sy'n gadael y ddalfa.

Mae'r panel adsefydlu ac ailintegreiddio yn is-grŵp o'r bwrdd rheoli ac fe'i cynhelir bob chwe wythnos. Mae'r panel yn un aml-asiantaeth ac yn cael ei gadeirio gan reolwr gwasanaeth GTI, ac mae'r llwybrau'n cynnwys cymorth gyda llety; Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth; gwasanaethau iechyd; camddefnyddio sylweddau; gwasanaethau teulu; cyllid, budd-daliadau a dyledion; a phontio. Roedd yn amlwg bod partneriaid wedi ymrwymo i'r paneli hyn er mwyn cefnogi cydweithio effeithiol. Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r bwrdd rheoli ar waith y panel, sy'n cynnwys cyfraddau presenoldeb asiantaethau partner.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd ganllawiau ar gystodaeth ac arferion adsefydlu i staff eu defnyddio pan fydd ganddynt achos cystodaeth. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'r prosesau y dylai rheolwyr achos eu dilyn wrth alw plant yn ôl i'r ystâd sefydliadau diogel pan fyddant yn rhwym wrth amodau trwydded.

Ni ystyriwyd unrhyw achosion adsefydlu fel rhan o'r arolygiad, ond dywedodd staff a oedd wedi rheoli achos cystodaeth fod cyfathrebu gyda'r ystâd sefydliadau diogel yn dda iawn. Mae gweithiwr adsefydlu yn cael ei ddyrannu i bob plentyn ac mae sgyrsiau wythnosol rhwng y GTI a'r sefydliad. Mae cyfnewid gwybodaeth â'r sefydliad diogel yn amserol, a bydd unrhyw ganlyniadau dyfarnu'n cael eu derbyn o fewn 24 awr fel arfer.

Mae staff yn cynnal perthynas dda gyda theuluoedd a byddant yn mynd â rhieni neu ofalwyr i ymweliadau ac yn hwyluso galwadau ffôn a fideo, er mwyn i deuluoedd allu cadw mewn cysylltiad. Pan fo'n briodol, bydd staff o asiantaethau partner yn gweld plant mewn sefydliadau diogel ac yn cysylltu â'u cymheiriaid yn y sefydliad. Er mwyn sicrhau parhad gofal o'r ddalfa i'r gymuned, byddant yn rhannu gwybodaeth a chynnydd ar yr ymyriadau sy'n cael eu cwblhau.

Anogir staff GTI i fynychu pob cyfarfod cynllunio cychwynnol, cyfarfodydd adolygu remand a chyfarfodydd adolygu dedfryd, yn ogystal â chwblhau ymweliadau lles. Mae'r adnoddau GTI llawn ar gael i blant mewn sefydliadau diogel, ochr yn ochr â phob ymyriad gwasanaeth arall. Darperir y rhain gan reolwyr achos, asiantaethau partner neu weithwyr arbenigol yn y GTI ac yn yr ystâd sefydliadau diogel.

Mae gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gysylltiadau da mewn partneriaeth ag awdurdodau tai lleol ac adrannau gwasanaethau plant. Gall staff hefyd ddefnyddio tîm cymorth dwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n cynnig darpariaeth i helpu i gynnal plant yn eu cartref. Mae gan y panel adsefydlu ac ailintegreiddio swyddog digartrefedd pobl ifanc hefyd fel rhan o'i aelodaeth.

Pan fydd plentyn yn cael ei ddedfrydu i gystodaeth, bydd rheolwr gwasanaeth GTI a'r rheolwr tîm perthnasol yn adolygu'r achos a'r ddedfryd a roddir. Adeg yr arolygiad, roedd rhai staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn gwaith adsefydlu, ac aelodau eraill i fod i fynychu yn y misoedd i ddod.

## Amrywiaeth

Drwy gydol ein safonau, rydym yn disgwyl dull gweithredu personol ac ymatebol ar gyfer pob plentyn, sy'n cynnwys ystyried eu hamrywiaeth a'u nodweddion gwarchodedig. Gall y ffactorau hynny ddylanwadu ar ein barn mewn safonau penodol. Yma, rydym yn cyflwyno crynodeb cyffredinol o'r agwedd tuag at amrywiaeth a welsom yn y tîm troseddau ieuenctid hwn.

Mae plant o'r ddau awdurdod yn cael eu trin yn gyfartal ac mae staff yn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar adnoddau sy'n seiliedig ar eu hanghenion ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael yn eu hardal. Ar hyn o bryd mae'r GTI yn ymgynghori ar ei bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth drafft. Mae hyn yn cynnwys canllaw defnyddiol i nodweddion amrywiaeth pobl, sy'n helpu staff i ofyn cwestiynau priodol i blant a theuluoedd.

Mae'r gwasanaeth yn cwblhau adroddiad blynyddol ar anghymesuredd ar blant o leiafrifoedd ethnig. Mae hefyd yn cynnwys data anghymesuredd arall yn ei adroddiadau perfformiad chwarterol, sy'n cael eu cyflwyno i'r bwrdd rheoli.

Roedd yr adroddiad anghymesuredd diweddaraf yn edrych ar blant a oedd yn agored i'r GTI rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Roedd 236 o blant yn gysylltiedig ag achosion atal, datrysiadau y tu allan i'r llys ac ymyriadau llys. O'r rhain, nododd 230 eu bod yn 'gwyn' – naill ai Gwyn Cymreig, Prydeinig neu Ewropeaidd. Roedd chwech o blant wedi nodi eu bod o gefndir lleiafrif ethnig, (o'i gymharu â dau yn y flwyddyn flaenorol), gyda phedwar ohonynt yn ddynion a dau yn fenywod. Bydd y GTI yn monitro hyn ac yn adrodd yn ôl i'r bwrdd rheoli.

Wrth ystyried anghymesuredd, mae'r BCI yn gofyn i'r GTI adrodd ar blant sy'n destun ymyriadau statudol. Ar gyfer 2020/2021, roedd 51 o blant. O'r rhain, roedd un plentyn wedi nodi ei fod o gefndir lleiafrif ethnig, sy'n dangos nad yw plant sy'n nodi hynny yn y garfan statudol yn cael eu gorgynrychioli.

Adeg yr arolygiad, roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid 219 o ymyriadau yn agored, ac roedd 25 y cant ohonynt ar gyfer merched, 39 y cant ar gyfer y rheini â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac roedd 17 y cant ar gyfer y rheini oedd â phryderon emosiynol, iechyd meddwl a lles. Roedd gan chwech o blant ddatganiad anghenion dysgu ychwanegol neu roeddent yn destun cynlluniau datblygu unigol.

Yn 2020, enillodd prosiect 'Be Me' GTI wobr am 'Arferion Arloesol Gorau'. Cafodd ei greu i wella lles plant, gan ganolbwyntio ar ferched. Mae'r prosiect yn edrych ar feithrin hyder a hunan-barch drwy ddefnyddio triniaethau harddwch, mewn partneriaeth â salon lleol. Darperir tiwtorialau, cefnogaeth a chyngor un-i-un a chynigir sesiynau cyngor gyrfa i blant hefyd. Arweiniwyd y prosiect hwn gan blant, yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu â merched y mae'r gwasanaeth yn gwybod amdanynt.

## 2. Datrysiadau yn y llys

Gwnaethom edrych yn fanwl ar bum dedfryd gymunedol a reolir gan y GTI. Ni chafwyd unrhyw ddedfrydau o gystodaeth o fewn y cyfnod a gwmpesir gan yr arolygiad. Rydym hefyd wedi cynnal pedwar cyfweliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; gweithredu a chyflawni gwasanaethau; ac adolygu. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, gan gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Defnyddiodd panel sgorio Arolygiaeth Prawf EM ddisgresiwn proffesiynol o ran y graddau a roddir am ansawdd y cynllunio ac am weithredu a darparu gwasanaethau. Er bod y rhain yn cael eu hystyried yn annigonol mewn rhai o'r achosion a arolygwyd, roedd tystiolaeth bod ymarfer yn gryf pan oedd rheolwyr achos yn cynllunio gwaith i gefnogi diogelwch a lles y plentyn, ac i reoli eu risg o niwed i eraill. Wrth ddarparu gwasanaethau, roedd yr ymarfer yn gryf o ran cefnogi diogelwch a lles y plentyn ond gellid bod wedi ei wella ar gyfer rheoli risg y plentyn o niwed i eraill. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, cytunodd y panel i wella'r sgôr ar gyfer cynllunio o 'Angen gwella' i 'Da', ac ar gyfer gweithredu a darparu gwasanaethau o 'Annigonol' i 'Angen gwella'.

Roedd yr holl asesiadau yn gadarn ym meysydd ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill. Roedd rheolwyr achos yn ystyried agwedd y plentyn tuag at ei droseddu ac yn ystyried ei amgylchiadau personol. Roeddent yn canolbwyntio ar gryfderau'r plentyn ac yn cydnabod lefel eu haeddfedrwydd a'u cymhelliant i newid. Roedd y staff wedi ystyried barn y plant a'u rhieni neu ofalwyr ac wedi defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i oleuo eu barn eu hunain. Nid oedd yr arolygwyr bob amser yn cytuno â lefel y risg o niwed i eraill yn yr achosion a arolygwyd. Roedd hyn yn ymwneud â rheolwyr achos nad oeddent yn ystyried yr holl ffactorau risg ac felly'n ystyried bod y risg yn is nag y dylai fod. Roedd angen datblygu gwaith gyda dioddefwyr, gan nad oedd eu hanghenion a'u dymuniadau'n cael eu hystyried yn gyson, ac felly collwyd cyfle am broses adferol.

Roedd yr holl achosion a archwiliwyd gennym yn gryf wrth gynllunio ar gyfer diogelwch a lles plentyn, a'r risg o niwed i eraill, er bod angen gwella'r gwaith o gynllunio'n briodol ar gyfer ymataliad y plentyn. Roedd tystiolaeth yn yr achosion a arolygwyd bod y staff yn canolbwyntio ar bwysigrwydd datblygu perthynas waith gyda'r plentyn ac yn deall hynny, ac yn eu cymell i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio eu hymyriadau. Wrth gynllunio ar gyfer diogelwch a lles y plentyn, a'r risg o niwed i eraill, roedd rheolwyr achos yn rhoi sylw priodol i'w risgiau ac yn cynnwys asiantaethau eraill yn briodol. Nid oedd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr bob amser yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gynllunio, ac nid oedd llawer o dystiolaeth bod pryderon yn ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn cael sylw. Roedd y gwaith o nodi trefniadau wrth gefn i reoli diogelwch a lles y plentyn, a'r risg o niwed i eraill angen gwella.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth dda o waith aml-asiantaeth i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant, y gwasanaeth iechyd a'r ddarpariaeth camddefnyddio sylweddau. Wrth ddarparu gwasanaethau, fodd bynnag, nid oedd staff GTI yn ystyried ymataliad y plentyn na'i risg o niwed i eraill mor ofalus ag yr oeddent yn ystyried eu diogelwch a'u lles. Roedd enghreifftiau lle nad oedd y

gwaith yn canolbwyntio ar y cynllun ymyrryd ac nad oedd yn cael ei gyflawni'n brydlon.

Roedd adolygu yn faes ymarfer cryf ar draws y tri maes. Roedd rheolwyr achos yn adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn ystyried eu cymhelliant a'u lefelau ymgysylltu. Roeddent yn cynnwys barn y plentyn a'i rieni neu ofalwyr wrth ystyried y cynnydd a wnaed gan y plentyn. Wrth adolygu sut i gadw'r plentyn yn ddiogel a'u risg o niwed i eraill, roedd rheolwyr achos wedi ystyried gwybodaeth gan asiantaethau eraill ac wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r cynllun parhaus. Fodd bynnag, mae angen adolygu ac ymateb i ffactorau amrywiaeth y plentyn er mwyn gwella.

**Cryfderau**

- Roedd asesu ac adolygu yn gadarn ym meysydd ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd rheolwyr achos yn adeiladu ar gryfderau'r plentyn.
- Roedd y cynllunio'n gadarn o ran diogelwch a lles y plentyn, a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd y staff yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i lywio eu barn eu hunain.
- Roedd y staff yn deall pwysigrwydd datblygu perthynas waith gyda'r plentyn a'i gymell i ymgysylltu.
- Roedd tystiolaeth dda o waith aml-asiantaeth i ddarparu gwasanaethau.
- Roedd y staff yn ystyried barn y plant a'u rhieni neu ofalwyr.

**Meysydd i'w gwella**

- Nid oedd rheolwyr achos bob amser yn ystyried anghenion a dymuniadau'r dioddefwr fel rhan o'r broses asesu a chynllunio, ac nid oedd llawer o dystiolaeth bod pryderon yn ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl yn cael sylw wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Wrth asesu'r risg o niwed i eraill, nid oedd rheolwyr achos yn ystyried yr holl ffactorau risg a oedd yn bresennol yn gyson.
- Nid oedd staff bob amser yn ystyried beth fyddai'n cefnogi ymataliad y plentyn wrth roi cynlluniau ar waith.
- Wrth ddarparu gwasanaethau, nid oedd staff yn canolbwyntio digon ar ymataliad y plentyn na'i risg o niwed i eraill.
- Cafwyd cynlluniau wrth gefn gwael i reoli diogelwch a lles plant, a'u risg o niwed i eraill.
- Nid oedd staff bob amser yn ystyried ffactorau amrywiaeth ehangach y plentyn wrth adolygu eu cynnydd.

Bydd y gwaith gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd yn fwy effeithiol os caiff ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

| 2.1. Asesiad | ☆ |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[18] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | **100%** |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **100%** |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **100%** |

### A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?

Roedd asesiadau a oedd yn dadansoddi sut i gefnogi ymataliad y plentyn yn faes ymarfer cryf. Ym mhob un o'r pum achos a arolygwyd, cafwyd dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, ac roedd yr asesiadau'n ystyried agwedd y plentyn tuag at ei droseddu a'i gymhelliant. Roedd staff yn ystyried materion amrywiaeth y plentyn mewn pedwar o bob pum achos ac yn ystyried eu hamgylchiadau personol ym mhob achos. Roedd gwybodaeth gan asiantaethau eraill wedi cael ei defnyddio fel sail i'r asesiad, ac roedd pob asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, ac yn cydnabod lefel ei aeddfedrwydd, ei allu a'i gymhelliant i newid. Roeddent wedi cynnwys y plentyn a/neu eu rhieni neu ofalwyr yn yr asesiad ac wedi ystyried eu barn.

Mewn un achos, ni ystyriwyd anghenion a dymuniadau dioddefwyr ac felly collwyd cyfle am broses adferol.

Y ffactorau yn y gorchmynion llys sy'n ymwneud fwyaf â throseddu plentyn yw ffordd o fyw, dysgu ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, camddefnyddio sylweddau a'u trefniadau byw; ym mhob achos a arolygwyd gennym, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn a chefnogi ymatal.

### A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Roedd asesiadau a oedd yn dadansoddi sut i gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos, roedd y risg i ddiogelwch a lles y plentyn wedi cael ei nodi a'i dadansoddi'n briodol gan y rheolwr achos. Roedd yr asesiad yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol ym mhob achos a arolygwyd. Roedd y mesurau rheoli a'r ymyriadau priodol i gadw'r plentyn yn ddiogel wedi'u nodi ym mhob un o'r pum achos.

[18] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

Barnodd yr arolygwyr fod asesiad y rheolwr achos o lefel diogelwch a lles yn rhesymol ym mhob achos. Yn gyffredinol, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel ym mhob un o'r achosion a arolygwyd.

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd asesu i gadw pobl eraill yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Roedd y rheolwr achos wedi defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i oleuo eu barn eu hunain. Roeddent wedi nodi'r mesurau rheoli ac ymyrryd priodol i leihau'r niwed a berir gan y plentyn ym mhob un o'r achosion.

Barnodd yr arolygwyr fod asesiad y rheolwr achos o lefel y risg o niwed difrifol i eraill yn rhesymol mewn tri o'r pum achos a arolygwyd. Roedd hyn yn ymwneud â rheolwyr achos nad oeddent yn ystyried yr holl ffactorau risg oedd yn bodoli ac felly'n ystyried bod y risg yn is nag y dylai fod. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel ym mhob un o'r achosion.

| **2.2. Cynllunio** | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Da |

Mae ein sgôr[19] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'ydy'** |
|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn? | **60%** |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 80% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 80% |

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?**

Defnyddiwyd disgresiwn proffesiynol yn y maes ymarfer hwn. Mewn pedwar o'r pum achos a arolygwyd, roedd y staff yn cynllunio'r gwasanaethau a oedd fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, gan roi sylw i amserlenni a dilyniannu priodol. Ym mhob achos, roeddent yn ystyried amgylchiadau personol a chyd-destun cymdeithasol y plentyn. Mewn pedwar o bob pump achos, roedd staff wedi ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, lefel aeddfedrwydd a chymhelliant i newid. Yn siomedig, dim ond mewn tri o'r pum achos yr ystyriwyd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr.

Roedd y cynllunio'n gymesur â chanlyniad y llys, a oedd yn golygu y gellid cwblhau ymyriadau o fewn yr amserlenni ym mhob achos. Yn gyffredinol, roedd y cynllunio'n cefnogi ymataliad y plentyn yn ddigonol mewn tri o'r pum achos yn unig.

[19] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos, rhoddwyd sylw i'r risgiau i ddiogelwch a lles plentyn. Defnyddiodd rheolwyr achos wybodaeth gan asiantaethau eraill i oleuo eu cynllunio ac roeddent wedi nodi'r mesurau rheoli ac ymyrryd priodol i hyrwyddo diogelwch y plentyn mewn pedwar o'r pum achos a arolygwyd. Mewn tri achos yn unig, roedd y trefniadau wrth gefn ar gyfer unrhyw newidiadau i lefel y risg yn amlwg ond, yn gyffredinol, roedd y cynllunio'n canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel mewn pedwar allan o'r pum achos.

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd cynllunio i hyrwyddo diogelwch pobl eraill drwy roi sylw i'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed i eraill yn amlwg ym mhob achos. Ym mhob achos ond un, roedd staff yn cynnwys asiantaethau eraill lle'r oedd hynny'n briodol. Fodd bynnag, roedd cynllunio ar gyfer trefniadau wrth gefn i reoli'r risgiau a nodwyd yn amlwg mewn dim ond tri o'r pum achos a arolygwyd.

Yn siomedig, dim ond mewn tri o'r pum achos y gwelwyd cynllunio i fynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl. At ei gilydd, roedd cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel yn amlwg mewn pedwar o'r pum achos.

| **2.3. Gweithredu a chyflawni** | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[20] ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | **40%** |
| A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | 80% |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | 60% |

**A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?**

[20] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

Defnyddiwyd disgresiwn proffesiynol yn y maes ymarfer hwn. Darparu gwasanaethau i gefnogi ymataliad plentyn oedd y meysydd ymarfer gwanaf. Maes gwaith sydd angen mwy o ystyriaeth yw trefnu gwasanaethau, lle barnwyd mai dim ond dau o'r pum achos a arolygwyd oedd yn ddigonol. Mewn pedwar achos, roedd staff wedi ystyried anghenion amrywiol y plentyn, ac mewn tri achos roeddent wedi ystyried cyd-destun cymdeithasol y plentyn, ei gryfderau a ffactorau cadarnhaol. Ym mhob achos ond un, roedd darparu gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i gael mynediad at ddarpariaeth ar ôl i'r ymyriad ddod i ben.

Ym mhob achos, roedd y staff wedi datblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr ac wedi annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â'r ymyriadau. Yn siomedig, fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i ymataliad y plentyn yn amlwg mewn dau o'r pum achos yn unig.

**A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?**

Roedd darparu gwasanaethau a oedd yn canolbwyntio ar gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer cryfach. Roedd yn amlwg bod diogelwch a lles y plentyn wedi cael eu hybu drwy ddarparu gwasanaeth ym mhob un ond un o'r pum achos a arolygwyd. Mewn tri o'r achosion, roedd y staff wedi cynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith o gadw plant yn ddiogel. At ei gilydd, roedd darparu gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn mewn pedwar o'r pum achos.

**A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?**

Roedd darparu gwasanaethau a oedd yn ystyried sut i gadw pobl eraill yn ddiogel yn faes ymarfer gwannach. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn rheoli ac yn lleihau'r risg o niwed ac roedd y staff yn cynnwys asiantaethau eraill yn ddigonol mewn dim ond tri o'r pum achos a arolygwyd. Roedd amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl wedi cael ei ystyried mewn pedwar o'r pum achos. Ar y cyfan, roedd yr arolygwyr o'r farn bod diogelwch pobl eraill yn cael ei gefnogi'n ddigonol mewn tri o'r achosion yn unig.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[21] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'ydy'** |
|---|---|
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn? | **80%** |

[21] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

| | |
|---|---|
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 100% |
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **80%** |

**A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?**

Roedd adolygu sut i gefnogi ymataliad y plentyn yn faes ymarfer cryf. Roedd rheolwyr achos yn ymwybodol y gall amgylchiadau plant newid yn gyflym, ac y gall hyn arwain at gynnydd, neu weithiau ostyngiad, yn eu tebygolrwydd o aildroseddu, risg o niwed i eraill neu mewn risgiau i'w diogelwch a'u lles.

Arweiniodd adolygu achosion at nodi ac ymateb dilynol i newidiadau yn y ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymatal mewn tri o'r pedwar achos perthnasol a arolygwyd gennym. Roedd rheolwyr achos yn adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn ystyried eu hamgylchiadau personol, gan gynnwys eu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach, ym mhob achos perthnasol. Yn siomedig, roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o ffactorau amrywiaeth y plentyn, ac yn ymateb iddynt, mewn un achos yn unig o blith pedwar lle'r oedd yn berthnasol. Roedd rheolwyr achos yn ystyried lefelau cymhelliant ac ymgysylltiad y plentyn ym mhob un o'r achosion perthnasol, ac ym mhob achos, roedd y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr wedi cael eu cynnwys yn ystyrlon yn y broses, a rhoddwyd ystyriaeth i'w barn.

Mewn dau o'r tri achos perthnasol, arweiniodd yr adolygiad at newidiadau yn y cynllun gwaith ac, yn gyffredinol, roedd pedwar o'r pum achos a arolygwyd yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn fel rhan o'r broses adolygu.

**A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd adolygu sut i gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Roedd rheolwyr achos yn nodi ac yn ymateb i newidiadau i ddiogelwch a lles y plentyn. Wrth adolygu, roedd rheolwyr achos wedi ystyried gwybodaeth gan asiantaethau eraill ac wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r cynllun parhaus ym mhob un o'r achosion perthnasol. Yn gyffredinol, roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel ym mhob achos a arolygwyd.

**A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd adolygu risg plentyn o niwed i eraill yn faes ymarfer cryf. Roedd y rheolwr achos wedi nodi ac wedi ymateb i newidiadau mewn risg mewn tri o'r pedwar achos perthnasol. Roedd yr adolygiad yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan asiantaethau eraill ym mhob un ond un o'r achosion perthnasol. Roedd y broses adolygu wedi arwain at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun gwaith parhaus i reoli a lleihau risgiau mewn dau o'r tri achos perthnasol. Yn gyffredinol, roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel mewn pedwar o'r pum achos a arolygwyd.

# 3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar 10 achos a oedd yn cael eu rheoli gan YOS a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybuddiad amodol ieuenctid, un rhybuddiad ieuenctid ac wyth datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweld y rheolwyr achos mewn naw achos.

Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; a gweithredu a chyflawni gwasanaethau. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, gwaith i gadw'r plentyn yn ddiogel a gwaith i gadw pobl eraill yn ddiogel.

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Darparodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithgareddau dargyfeirio ac atal ac asesiadau AssetPlus wedi'u cwblhau ar yr holl blant sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaethau hyn. Felly, gallai plant a theuluoedd gael llawer o waith ymyrryd cynnar cyn i blentyn gael ei gyfeirio ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys. Adeg yr arolygiad, dangosodd baich achos y GTI fod y rhan fwyaf o'i waith gyda phlant ar benderfyniadau cymunedol, gyda dim ond nifer fechan yn mynd i'r Biwro ac yn derbyn rhybuddiad ieuenctid neu rybudd amodol ieuenctid.

Y Biwro oedd y panel penderfynu ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, ac oherwydd ei natur, dylai fod wedi cael ei ystyried yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Roedd yn cynnwys rhingyll heddlu, uwch ymarferydd GTI neu reolwr tîm, aelod o banel cymunedol a swyddog heddlu GTI, a allai hefyd gynrychioli barn y dioddefwr. Gweithiodd mewn ffordd debyg i baneli gorchmynion atgyfeirio ac ystafelloedd llys, ac nid oedd yn banel aml-asiantaeth. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oedd plant yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a gellid eu troi i ffwrdd. Ni sefydlwyd y panel i gydnabod hyn, a dylai aelodau'r panel fod wedi cynnwys yr asiantaethau hynny a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu a lles plant, yn ogystal â'r rhai a oedd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Er bod asesiad AssetPlus wedi'i gwblhau ar gyfer pob plentyn, dim ond adroddiad cryno a dderbyniodd y Biwro ac nid oedd ganddo fynediad at yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r plentyn a'i deulu. Felly, nid oedd gwybodaeth fanwl o'r asesiad yn cael ei chyflwyno'n gyson i'r Biwro. Roedd hyn yn ei gwneud yn fwy anodd sicrhau bod plant yn cael canlyniad a oedd yn cefnogi eu hanghenion unigol, a bod unrhyw bryderon ynghylch amrywiaeth yn cael eu cydnabod. Llwyddodd y GTI i gasglu a choladu barn y plant a oedd wedi mynychu'r Biwro, a chafodd enghreifftiau o sut yr oedd yr adborth hwn wedi helpu'r gwasanaeth i wneud newidiadau i'r broses.

Er bod problemau gyda phroses y Biwro, yn gyffredinol, roedd asesu gan staff y GTI yn faes ymarfer cryf ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys ym mhob un o'r tri maes. Roedd rheolwyr achos yn dadansoddi anghenion amrywiaeth y plentyn yn briodol ac wedi ystyried eu haeddfedrwydd a'u cymhelliant i newid. Roeddent wedi ystyried anghenion a dymuniadau'r dioddefwr, ac wedi defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i lywio eu barn. Nodwyd risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn, a'r risg o niwed i eraill; fodd bynnag, canfu'r arolygwyr nad oedd y dosbarthiad bob amser yn rhesymol ac nad oedd rheolwyr achos yn ystyried yr holl ffactorau risg, ac felly'n barnu bod y risg yn is nag y dylai fod.

Roedd cynllunio'n faes ymarfer cryf. Roedd tystiolaeth yn yr achosion a arolygwyd bod y staff yn canolbwyntio ar ddeall arddull dysgu ac anghenion unigol y plentyn wrth gynllunio ymyriadau. Roedd y risgiau wedi cael eu nodi a'u dadansoddi'n briodol wrth gynllunio ar gyfer diogelwch a lles plentyn, a'r risg o niwed i eraill, ac roedd y staff wedi ystyried anghenion a dymuniadau'r dioddefwr. Fodd bynnag, nid oedd y trefniadau wrth gefn ar gyfer unrhyw newidiadau i lefel y risg yn gyson amlwg ym mhob achos.

Roedd y gwaith o weithredu a darparu gwasanaethau hefyd yn gryf ar draws y tri maes. Roedd rheolwyr achos yn ystyried cyd-destun cymdeithasol ehangach y plentyn, yn datblygu ac yn cynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr, ac yn annog ac yn galluogi'r plentyn i gydymffurfio â'r ymyriadau. Roeddent hefyd yn canolbwyntio ar allu'r plentyn i gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd pan ddaeth eu hymyriad i ben. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cynnwys prosiect REACH ac asiantaethau eraill yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau – er enghraifft, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a CAMHS – ac roeddent wedi defnyddio cyfarfodydd aml-asiantaeth i sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn ymwybodol o gynnydd y plentyn. Wrth ddarparu gwasanaethau mewn perthynas â risg y plentyn o niwed i eraill, nid oedd rheolwyr achos wedi ystyried amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl ym mhob achos perthnasol.

**Cryfderau**

- Mae asesiad AssetPlus wedi ei gwblhau ar gyfer pob plentyn sy'n hysbys i'r GTI.
- Mae asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn feysydd ymarfer cryf ym mhob un o'r tri maes.
- Roedd rheolwyr achos wedi dadansoddi anghenion amrywiaeth y plentyn yn briodol ac wedi ystyried eu haeddfedrwydd a'u cymhelliant i newid.
- Canolbwyntiodd y staff ar ddeall arddull dysgu'r plentyn a'i anghenion unigol wrth gynllunio ymyriadau.
- Ystyriwyd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr mewn achosion perthnasol.
- Datblygodd rheolwyr achos berthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr.
- Roedd rheolwyr achos yn canolbwyntio ar sicrhau y byddai'r plentyn yn gallu cael mynediad at wasanaethau prif ffrwd pan ddaeth eu hymyriad i ben.
- Roedd staff yn defnyddio cyfarfodydd aml-asiantaeth i sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y plentyn.

**Meysydd i'w gwella**

- Nid yw'r Biwro yn aml-asiantaeth, ac nid yw'n cael yr holl wybodaeth asesu sy'n berthnasol i blant a'u teuluoedd yn gyson.
- Nid oedd staff wedi nodi'r holl ffactorau risg posibl mewn rhai achosion.
- Nid oedd dosbarthiad risg i ddiogelwch a lles plentyn, a'i risg o niwed i eraill bob amser yn rhesymol pan ystyriwyd yr holl wybodaeth oedd ar gael.

- Roedd angen trefniadau wrth gefn wrth gynllunio i gefnogi diogelwch a lles y plentyn, ac i reoli ei risg o niwed i eraill.
- Nid oedd rheolwyr achos wedi ystyried amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl ym mhob achos perthnasol.

Bydd y gwaith gyda phlant y gwneir penderfyniadau amdanynt y tu allan i'r llys yn fwy effeithiol os caiff ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

### 3.1. Asesiad

| | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[22] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | 100% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | **90%** |

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?**

Roedd asesiadau a oedd yn dadansoddi sut i gefnogi ymataliad y plentyn yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos, roedd digon o ddadansoddi ar ymddygiad troseddol ac roedd yr asesiadau'n ystyried amgylchiadau personol y plentyn a'i gryfderau a ffactorau amddiffynnol. Ym mhob achos ac eithrio un, roedd y staff wedi ystyried lefelau aeddfedrwydd a chymhelliant y plentyn i newid, ac wedi cynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn yr asesiad ac wedi ystyried eu barn.

Ym mhob achos, roedd dadansoddiad priodol o anghenion amrywiaeth y plentyn, ac roedd rheolwyr achos wedi defnyddio gwybodaeth gan asiantaethau eraill i oleuo eu hasesiad. Ystyriwyd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr ym mhob achos perthnasol.

Y ffactorau yn y datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n ymwneud fwyaf â throseddu plentyn yw dysgu ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ffordd o fyw a chamddefnyddio sylweddau, ac ym mhob un o'r 10 achos a arolygwyd gennym, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn a chefnogi ymatal.

---

[22] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd asesiadau a oedd yn dadansoddi sut i gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos ond un, roedd y risg i ddiogelwch a lles y plentyn wedi cael ei nodi a'i dadansoddi'n briodol gan y rheolwr achos. Roedd yr asesiad yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol ym mhob achos a arolygwyd.

Barnodd yr arolygwyr fod asesiad y rheolwr achos o lefel diogelwch a lles yn rhesymol mewn wyth o'r 10 achos. Lle'r oeddent yn anghytuno, roedd hyn oherwydd nad oedd rheolwyr achos yn ystyried yr holl ffactorau risg, ac felly'n ystyried bod y risg yn is nag y dylai fod. Yn gyffredinol fodd bynnag, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel ym mhob un o'r achosion a arolygwyd.

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd asesu i gadw pobl eraill yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Roedd pob un ond un o'r achosion yn nodi ac yn dadansoddi'n glir y risg o niwed i eraill. Yn yr un modd, ym mhob achos bron, roedd staff wedi defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, fel sail i'w barn eu hunain. Barnodd yr arolygwyr fod asesiad y rheolwr achos o lefel y risg o niwed difrifol i eraill yn rhesymol mewn dim ond saith o'r 10 achos a arolygwyd, gyda thri achos â ffactor risg is nag a bennwyd gan ein harolygydd. Yn gyffredinol, roedd yr asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel ym mhob un ond un o'r achosion.

## 3.2. Cynllunio ☆

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[23] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | **% 'ydy'** |
|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn? | 100 % |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | 100 % |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **90%** |

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?**

[23] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

Roedd cynllunio sut i gefnogi ymataliad y plentyn yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos, roedd staff yn cynllunio'r gwasanaethau a oedd fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, gan roi sylw i amserlenni a dilyniannu priodol, ac yn ystyried amgylchiadau personol a chyd-destun cymdeithasol y plentyn. Ym mhob achos bron, wrth gynllunio ar gyfer ymataliad plentyn, roedd rheolwyr achos yn ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn. Rhoddodd y staff ystyriaeth i faterion amrywiaeth y plentyn a'u haeddfedrwydd a'u cymhelliant i newid mewn wyth o bob 10 achos.

Ym mhob achos ond un, roedd ystyriaeth wedi'i rhoi i'r cyfleoedd i'r plentyn integreiddio yn y gymuned a chael mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau eu datrysiad y tu allan i'r llys. Roedd pob achos perthnasol yn dangos tystiolaeth bod anghenion a dymuniadau'r dioddefwr wedi cael eu hystyried, ac ym mhob achos ond un, roedd y staff wedi cynnwys y plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn y broses gynllunio.

Roedd y cynllunio'n gymesur â'r math o ddatrysiad, a oedd yn golygu y gellid cwblhau ymyriadau o fewn yr amserlenni ym mhob achos.

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos, roedd cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ac ym mhob achos perthnasol, cynhwyswyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill i oleuo'r gwaith cynllunio. Mewn dau o'r 10 achos a arolygwyd, nid oedd y trefniadau wrth gefn ar gyfer unrhyw newidiadau i lefel y risg yn amlwg ond, yn gyffredinol, roedd y cynllunio'n canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel ym mhob un o'r achosion.

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Roedd cynllunio i hyrwyddo diogelwch pobl eraill drwy roi sylw i'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed i eraill yn amlwg ym mhob achos ond un, ac roedd rheolwyr achos wedi cynnwys asiantaethau eraill ym mhob achos. Fodd bynnag, nid oedd y cynllunio ar gyfer trefniadau wrth gefn i reoli'r risgiau a nodwyd yn amlwg mewn dau o'r 10 achos a arolygwyd.

Roedd cynllunio i fynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl yn amlwg ym mhob achos perthnasol bron. At ei gilydd, roedd cynllunio a oedd yn canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel yn amlwg mewn naw o'r 10 achos.

| **3.3. Gweithredu a chyflawni** | ☆ |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[24] ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | 100 % |
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | 100 % |
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | **90%** |

**A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?**

Roedd darparu gwasanaethau i gefnogi ymataliad plentyn yn faes ymarfer cryf. Ym mhob achos, roedd ymyriadau i gefnogi ymatal wedi cael eu trefnu'n briodol a'u cyflwyno mewn da bryd. Mewn wyth allan o'r 10 achos a arolygwyd, roedd y rheolwr achos wedi ystyried anghenion amrywiaeth y plentyn, ac ym mhob achos ar wahân i un, ystyriwyd cyfleoedd y plentyn i integreiddio â'r gymuned a mynediad at wasanaethau prif ffrwd.

Ym mhob achos, roedd staff yn ystyried cyd-destun cymdeithasol ehangach y plentyn, yn datblygu ac yn cynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr, ac wedi annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â'r ymyriadau.

Roedd ymyriadau a oedd yn gymesur â'r datrysiad yn amlwg ym mhob achos ac, yn gyffredinol, roedd y gefnogaeth i ymataliad y plentyn yn ddigonol ym mhob un o'r 10 achos.

**A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd darparu gwasanaethau a oedd yn ystyried sut i gadw plant yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Roedd yn amlwg bod diogelwch a lles y plentyn wedi cael eu hybu drwy ddarparu gwasanaeth ym mhob un o'r achosion a arolygwyd. Mewn wyth o'r naw achos perthnasol, roedd y staff wedi cynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith o gadw plant yn ddiogel. At ei gilydd, roedd darparu gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn ym mhob achos.

**A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Roedd darparu gwasanaethau a oedd yn ystyried sut i gadw pobl eraill yn ddiogel yn faes ymarfer cryf. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn rheoli ac yn lleihau'r risg o niwed ym mhob achos ond un, er nad oedd staff wedi ystyried amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl mewn un o'r achosion perthnasol. At ei gilydd, roedd yr arolygwyr o'r farn bod diogelwch pobl eraill yn cael ei gefnogi'n ddigonol mewn naw o'r 10 achos a arolygwyd.

[24] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

| 3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys | 🟠 |
| --- | --- |
| Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. | Angen gwella |

Wrth wneud penderfyniad am bolisi a darpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes polisi ar waith ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r llys sy'n hyrwyddo dargyfeirio priodol ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?**

Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn darparu gweithgareddau dargyfeirio ac atal drwy amrywiol raglenni a phrosiectau ar draws y ddau awdurdod lleol, gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael gwaith ymyrryd cynnar priodol. Canfu'r arolygiad fod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn rhagweithiol iawn o ran ymgysylltu â phlant a theuluoedd cyn iddynt gael datrysiad y tu allan i'r llys. Roedd rhaglen REACH yn sicrhau bod AssetPlus yn cael ei gwblhau'n gynnar, er mwyn gallu rhoi ymyriadau ataliol ar waith pe bai angen.

Roedd yna fframwaith datrysiad y tu allan i'r llys yng Ngwent a phroses Biwro 2019-2022. Roedd y polisi'n nodi proses uwchgyfeirio os bydd anghytundeb ynghylch canlyniadau'n codi, er mai pur anaml yr oedd y sefyllfaoedd hyn wedi digwydd.

Roedd y fframwaith datrysiadau y tu allan i'r llys yn cynnwys dull gweithredu dwy haen. Roedd yr haen gyntaf ar gyfer plentyn a oedd wedi cael ei arestio am ei drosedd gyntaf, wedi cael ei enwi fel un a gyflawnodd y trosedd ac wedi derbyn cyfrifoldeb. Yn yr achosion hyn, pe bai'r plentyn yn cytuno, byddai'r heddlu'n eu hystyried ar gyfer datrysiad cymunedol. Cyfeiriwyd y plentyn wedyn at swyddog heddlu GTI am gyfnod o 28 diwrnod. Bu'n rhaid i aelod o dîm rheoli'r GTI gymeradwyo unrhyw gytundeb ar gyfer plentyn sy'n derbyn ail neu drydydd datrysiad cymunedol. Roedd yr ail haen ar gyfer plentyn a oedd wedi cael ei arestio neu wedi cymryd yn rhan mewn cyfweliad gwirfoddol, a nodwyd ei fod yn cyflawni'r trosedd, gyda digon o dystiolaeth i'w gyhuddo, ac wedi derbyn cyfrifoldeb. Yn yr achosion hyn, pe bai'r plentyn yn cytuno, byddai'r heddlu'n eu hystyried ar gyfer eu cyfeirio at y Biwro. Gallai canlyniad y Biwro fod yn rhybuddiad ieuenctid neu'n rhybuddiad amodol i bobl ifanc.

Y Biwro yw'r panel penderfynu ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Dylid bod wedi'i ystyried yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol oherwydd y ffordd y'i sefydlwyd, gan ei fod yn gweithio mewn ffordd debyg i baneli gorchmynion atgyfeirio ac ystafelloedd llys, ac nid oedd yn banel aml-asiantaeth. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oedd plant yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a gellid eu troi i ffwrdd. Ni sefydlwyd y panel i gydnabod hyn, a dylai aelodau'r panel fod wedi cynnwys yr asiantaethau hynny a oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu a lles plant, yn ogystal â'r rhai a oedd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Dim ond crynodeb o adroddiad AssetPlus a dderbyniodd aelodau'r Biwro ac felly nid oedd ganddynt fynediad at yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r plentyn a'i deulu. Felly, nid oedd gwybodaeth fanwl o'r asesiad yn cael ei chyflwyno'n gyson i'r Biwro. Roedd hyn yn ei gwneud yn fwy anodd sicrhau bod plant yn cael canlyniad a oedd yn cefnogi eu hanghenion unigol, a bod unrhyw bryderon ynghylch amrywiaeth yn cael eu cydnabod.

Adeg yr arolygiad, dangosodd baich achos y GTI fod y rhan fwyaf o'i waith gyda phlant ar benderfyniadau cymunedol, gyda dim ond nifer fechan yn mynd i'r Biwro ac yn derbyn rhybuddiad ieuenctid neu rybudd amodol ieuenctid. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r Biwro a'i weithdrefnau er mwyn sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu ar bob cam o'r broses.

### A yw darpariaeth ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?

Ym Mlaenau Gwent a Chaerffili, derbyniodd swyddogion heddlu GTI hysbysiad am achos posibl o ddatrysiad y tu allan i'r llys drwy gronfa ddata'r heddlu gan adolygu'r digwyddiad i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r meini prawf. Cawsant adroddiad rheolaidd ar ansawdd y wybodaeth a gawsant, er mwyn canfod unrhyw broblemau sy'n codi dro ar ôl tro y gellid mynd i'r afael â hwy gyda'r swyddogion heddlu sy'n atgyfeirio. Os bodlonwyd y meini prawf, cysylltwyd â rheolwr tîm GTI, a oedd wedi dyrannu'r achos. Cynhaliwyd archwiliadau gydag asiantaethau eraill, megis gwasanaethau plant a darparwyr addysg, i weld a oedd y plentyn yn hysbys a'i fod wedi cael unrhyw gyswllt blaenorol gyda'r GTI. Os oedd yr achos yn mynd i'r Biwro, gosodwyd dyddiad.

Ar y cam hwn, cysylltodd swyddog heddlu'r GTI â'r dioddefwr, er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei chynrychioli ym mhob asesiad ac adroddiad. Yna cwblhaodd y rheolwr achos asesiad AssetPlus a chysylltu â swyddogion heddlu GTI ynghylch barn y plentyn am unrhyw ymwneud mewn proses adferol. Roedd yr holl ymyriadau a oedd ar gael i blant ar orchmynion statudol ar gael i'r rhai a oedd yn derbyn datrysiadau y tu allan i'r llys.

Disgwylid y byddai penderfyniad y tu allan i'r llys yn cael ei gwblhau o fewn tri mis, er y gallai penderfyniad aros yn agored yn wirfoddol am gyfnod hwy os bydd angen. Pan nad oedd plentyn yn cydymffurfio â'i ddatrysiad, gwnaed ymdrechion i gefnogi'r ymgysylltu.

### A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?

Cafodd fframwaith datrysiad y tu allan i'r llys Gwent a phroses y Biwro eu hadolygu gan y partneriaid ddwywaith y flwyddyn. Roedd y partneriaid yn cynnwys Heddlu Gwent, GTI Sir Fynwy a Thorfaen, GTI Blaenau Gwent a Chaerffili, GTI Casnewydd, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Yn ogystal, roedd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu banel craffu a oedd yn cynnwys y llysoedd, yr ynadon, yr heddlu a'r tri Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yng Ngwent. Ei bwrpas oedd cynnal adolygiadau o'r broses gwneud penderfyniadau a'r rhesymeg dros gwblhau ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

Fel rhan o adroddiad perfformiad y GTI a monitro'r amrywiol grantiau a dderbyniodd y GTI, cynhyrchwyd adroddiadau i ddadansoddi gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid hefyd wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n edrych ar blant a oedd wedi cael ail ddatrysiad neu drydydd datrysiad cymunedol. Llwyddodd y GTI i gasglu a choladu barn y plant a oedd wedi mynychu'r Biwro, a chafodd enghreifftiau o sut yr oedd yr adborth hwn wedi helpu'r gwasanaeth i wneud newidiadau i'r broses.

# Atodiad 1: Methodoleg

### Safonau Arolygiaeth Prawf EM

Mae'r safonau rydyn ni'n arolygu'r gwasanaethau troseddau ieuenctid yn eu herbyn yn seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, dysg a phrofiad. Nod y safonau hyn yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.[25]

Mae'r fethodoleg arolygu wedi'i chrynhoi isod, ac wedi'i chysylltu â'r tri pharth yn ein fframwaith safonau. Gwnaethom ganolbwyntio ar gael tystiolaeth yn erbyn y safonau, y cwestiynau a'r awgrymiadau allweddol yn ein fframwaith arolygu.

### Parth un: darpariaeth sefydliadol

Cyflwynodd y gwasanaeth troseddwyr ifanc dystiolaeth ymlaen llaw, a rhoddodd pennaeth gwasanaethau plant Caerffili a phennaeth gwasanaethau plant Blaenau Gwent gyflwyniad ar y meysydd canlynol:

- Sut mae trefniadau ar gyfer darpariaeth sefydliadol yn y maes hwn yn gwneud yn siŵr bod gwaith eich gwasanaeth troseddau ieuenctid mor effeithiol ag y gall fod, a bod cyfleoedd mewn bywyd y plant sydd wedi troseddu yn cael eu gwella?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwella'r trefniadau hyn ymhellach?

Yn ystod y prif gyfnod gwaith maes, cynhaliwyd 13 chyfweliad gyda rheolwyr achos, gan ofyn iddynt am eu profiadau o ran hyfforddiant, datblygiad, goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth gan reolwyr. Cynhaliwyd amrywiol gyfarfodydd, ac roedd y rhain wedi ein galluogi i driongli tystiolaeth a gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfanswm o 12 cyfarfod, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda rheolwyr, sefydliadau partner a staff. Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd o dan y parth hwn ei barnu yn erbyn nodweddion y sgoriau roeddem wedi'u cyhoeddi.[26]

### Parth dau: datrysiadau yn y llys

Gwnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd deugain y cant o'r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a oedd wedi derbyn datrysiadau yn y llys rhwng chwech a naw mis yn gynharach, a oedd yn ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl eraill a oedd yn ymwneud yn sylweddol â'r achos hefyd.

Gwnaethom archwilio pum datrysiad yn y llys. Pennwyd maint y sampl i sicrhau lefel hyder o 80 y cant (gyda goddefiant gwall o bump), a gwnaethom sicrhau bod y cymarebau mewn perthynas â rhyw, dedfryd neu fath o ddatrysiad, risg o niwed difrifol, a risg i ddiogelwch a lles yn cyfateb i'r rhai yn y boblogaeth gymwys.

[25] Mae safonau Arolygiaeth EM ar gael yma:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/

### Parth tri: datrysiadau y tu allan i’r llys

Gwnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd chwe deg y cant o’r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a oedd wedi derbyn datrysiadau y tu allan i’r llys dri i bum mis yn gynharach. Roedd hyn yn ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl eraill a oedd yn ymwneud yn sylweddol â’r achos hefyd.

Gwnaethom archwilio 10 datrysiad y tu allan i’r llys. Pennwyd maint y sampl ar sail cyfran y datrysiadau y tu allan i’r llys yn y YOT.

# Atodiad 2: Data arolygu

Yn yr arolygiad hwn, gwnaethom gynnal archwiliad manwl o sampl o bump o ddatrysiad yn y llys a 10 datrysiad y tu allan i'r llys. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn safonau mewn perthynas ag asesu, cynllunio, a gweithredu/darparu. Ar gyfer datrysiadau yn y llys, rydym hefyd yn edrych ar adolygu. Ar gyfer pob safon, mae'r arolygwyr yn ateb nifer o gwestiynau allweddol am wahanol agweddau ar ansawdd, gan gynnwys a oedd dadansoddiad digonol o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu; i ba raddau yr oedd y plant yn ymwneud ag asesu a chynllunio; ac a wnaed digon i asesu lefel y risg o niwed, ac i reoli'r risg honno.

Er mwyn cael sgôr 'Rhagorol' ar gyfer yr adrannau ar ddatrysiadau yn y llys neu ddatrysiadau y tu allan i'r llys, mae'n rhaid i 80 y cant neu fwy o'r achosion a ddadansoddwn gael eu hasesu fel rhai digonol. Os bernir bod rhwng 65 y cant a 79 y cant yn ddigonol, yna caiff sgôr 'Da' ac os bernir bod rhwng 50 y cant a 64 y cant yn ddigonol, yna rhoddir sgôr 'Angen gwella'. Yn olaf, os yw llai na 50 y cant yn ddigonol, yna caiff sgôr 'Annigonol'. Nid yw achosion ailsefydlu yn cael eu sgorio ar wahân; mae'r data at ddibenion enghreifftiol yn unig.

Mae'r sgôr ar gyfer pob safon wedi'i halinio â'r band ar lefel y cwestiwn allweddol lle barnwyd bod y gyfran isaf o achosion yn ddigonol, gan ein bod yn credu bod pob un o'r cwestiynau allweddol yn rhan annatod o'r safon. Felly, os ydym yn rhoi sgôr 'Da' i dri chwestiwn allweddol a sgôr 'Annigonol' i un, y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon honno yw 'Annigonol'.

| **Y band isaf**<br>(cyfran yr achosion y bernir eu bod yn ddigonol ar lefel y cwestiynau allweddol) | **Sgôr (safonol)** |
|---|---|
| Lleiafrif: <50% | Annigonol |
| Dim digon: 50-64% | Angen gwella |
| Mwyafrif rhesymol: 65-79% | Da |
| Mwyafrif helaeth: 80%+ | **Rh**agorol ☆ |

Mae rheolau sgorio ychwanegol yn cael eu defnyddio i greu sgôr gyffredinol y timau troseddau ieuenctid. Mae'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn:

- 0–6 = Annigonol
- 7–18 = Angen gwella
- 19–30 = Da
- 31–36 = Rhagorol.

Mae safonau parth un, y safon ansoddol ym mharth tri (safon 3.4) a'r safon ailsefydlu (safon 4.1) yn cael eu barnu gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol yn bennaf.

Mae'r safon ailsefydlu yn cael ei sgorio ar wahân, ac nid yw'n dylanwadu ar sgôr gyffredinol y timau troseddau ieuenctid. Rydym yn defnyddio barn gyfyngus, lle nad yw unrhyw dîm troseddau ieuenctid sy'n cael sgôr 'Annigonol' ar gyfer y safon ailsefydlu yn gallu cael sgôr 'Rhagorol' gyffredinol, ni waeth sut mae'n cael ei sgorio yn erbyn y safonau craidd. Lle nad oes achosion ailsefydlu perthnasol, nid ydym yn rhoi sgôr i waith ailsefydlu.

**Data o achosion a arolygwyd:**[27]

| **2.1. Asesu (datrysiadau yn y llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys agwedd y plentyn tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell? | **100%** |
| b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | **80%** |
| c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | **100%** |
| d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill? | **100%** |
| e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn? | **100%** |
| f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn? | **60%** |
| g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, a'i debygolrwydd o ymwneud â datrysiad y llys? | **100%** |
| h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol? | **80%** |
| i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | **80%** |
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn? | **100%** |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | **100%** |
| c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | **100%** |

[27] Nid yw rhai o'r cwestiynau'n berthnasol ym mhob achos.

| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | |
|---|---|
| a) A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu risg a natur y risg honno? | **80%** |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | **100%** |
| c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i reoli a lleihau i'r eithaf y risg o niwed a achosir gan y plentyn? | **100%** |

| 2.2. Cynllunio (datrysiadau yn y llys) | |
|---|---|
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniant? | **80%** |
| b) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | **60%** |
| c) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | **100%** |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain yn ôl yr angen? | **80%** |
| e) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain yn ôl yr angen? | **80%** |
| f) A yw'r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr? | **60%** |
| g) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | **100%** |

| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | |
|---|---|
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ac yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau? | **100%** |
| b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn? | **80%** |

| | |
|---|---|
| c) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | **80%** |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | **60%** |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | |
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed? | **100%** |
| b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol? | **80%** |
| c) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? | **60%** |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill? | **60%** |
| e) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | **60%** |

| **2.3. Gweithredu a darparu (datrysiadau yn y llys)** | |
|---|---|
| **A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael? | **40%** |
| b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn? | **80%** |
| c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill? | **60%** |
| d) A yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol? | **60%** |
| e) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr? | **100%** |
| f) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth? | **80%** |
| g) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y timau troseddau ieuenctid? | **100%** |

| | |
|---|---|
| h) A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol? | **20%** |
| **A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | **80%** |
| b) A yw'r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei gyd-drefnu'n dda? | **60%** |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed? | **60%** |
| b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl? | **80%** |
| c) A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli'r risg o niwed wedi'i gyd-drefnu'n ddigonol? | **60%** |

| **2. 4. Adolygu (datrysiadau yn y llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymataliad? | **60%** |
| b) A yw adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol? | **100%** |
| c) A yw'r gwaith adolygu yn cynnwys dadansoddiad o ffactorau amrywiaeth, ac yn ymateb iddynt? | **20%** |
| c) A yw adolygu'n ystyried yr amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | **100%** |
| d) A yw'r gwaith adolygu yn ystyried lefelau cymhelliant ac ymgysylltu ac unrhyw rwystrau perthnasol? | **80%** |
| e) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o adolygu ei gynnydd a'i ymgysylltu, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | **100%** |
| f) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i gefnogi ymataliad? | **40%** |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?** | |

| | |
|---|---|
| a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles? | **80%** |
| b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | **80%** |
| c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | **60%** |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | |
| a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed? | **60%** |
| b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed? | **60%** |
| c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r holl waith i reoli ac i leihau'r risg o niwed? | **40%** |

| **3.1. Asesu (datrysiadau y tu allan i'r llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys cydnabyddiaeth y plentyn am ei gyfrifoldeb dros droseddu, a'i agwedd tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell? | **100%** |
| b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | **100%** |
| c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | **100%** |
| d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill? | **100%** |
| e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn? | **100%** |
| f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn? | **80%** |
| g) A roddir sylw digonol i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid? | **90%** |
| h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol? | **80%** |
| i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | **90%** |

| A yw’r asesiad yn dadansoddi’n ddigonol sut i gadw’r plentyn yn ddiogel? | |
|---|---|
| a) A yw’r asesiad yn nodi’n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn? | **90%** |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo’n briodol? | **100%** |
| **A yw’r asesiad yn dadansoddi’n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?** | |
| a) A yw’r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi’n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy’n wynebu risg a natur y risg honno? | **90%** |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw asesiadau eraill sydd wedi’u cwblhau, a thystiolaeth arall o ymddygiad y plentyn? | **90%** |

| 3.2. Cynllunio (datrysiadau y tu allan i’r llys) | |
|---|---|
| **A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | |
| a) A yw'r gwaith cynllunio’n nodi’r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a’r angen am ddilyniant? | **100%** |
| b) A yw’r gwaith cynllunio yn mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | **80%** |
| c) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | **100%** |
| d) A yw’r gwaith cynllunio’n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu’r rhain yn ôl yr angen? | **90%** |
| e) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu’r rhain yn ôl yr angen? | **80%** |
| f) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o ystyriaeth i gyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith datrys y tu allan i’r llys? | **90%** |
| g) A yw’r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau’r dioddefwyr? | **90%** |
| h) A yw’r plentyn a’i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | **90%** |

| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | |
|---|---|
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ac yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau? | **100%** |
| b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn? | **80%** |
| c) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | **80%** |

| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | |
|---|---|
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed? | **90%** |
| b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol? | **100%** |
| c) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? | **89%** |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | **80%** |

| 3.3. Gweithredu a darparu (datrysiadau y tu allan i'r llys) | |
|---|---|
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael? | **100%** |
| b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn? | **80%** |
| c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill? | **100%** |
| d) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr? | **100%** |
| e) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y timau troseddau ieuenctid? | **100%** |

| | |
|---|---|
| f) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd? | **90%** |
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?** | |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | **100%** |
| b) A yw'r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei ddefnyddio a'i gyd-drefnu'n dda? | **80%** |

| | |
|---|---|
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed? | **90%** |
| b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl? | **80%** |